Arolygiad thematig o ddarpariaeth ac ansawdd gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer menywod sy'n troseddu

**Medi 2016**

© Hawlfraint y Goron 2016
Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth yma (ac eithrio logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, yn unol ag amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi manylion am hawlfraint gwybodaeth trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar:
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

## Rhagair

Fe roddodd Adroddiad Corston 2007[1] hwb enfawr i weledledd anghenion unigryw menywod sy'n troseddu. Ymatebodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr trwy hyrwyddo swm sylweddol o weithgarwch, yn rhanbarthol ac yn lleol.

Fe arolygom wasanaethau i fenywod yn 2011[2], rhyw bedair blynedd yn ddiweddarach. Fe ddaethom i'r casgliad bod llawer wedi cael ei gyflawni, er roedd gwasanaethau'n dal yn anghyson, ac roedd mesurau perfformiad penodol yn anodd dod ar eu traws. Fe ragwelom, gyda'r newidiadau a oedd ar y gweill i'r gwasanaeth prawf, y byddai cynnal a datblygu gwasanaethau i fenywod yn dibynnu ar gyllid. Fe argymhellon gadw ffocws penodol ar fenywod a datblygu mesurau canlyniad effeithiol, wedi'u cefnogi gan fonitro a gwerthuso.

Yn yr arolygiad hwn, rydym wedi darganfod diffyg ffocws penodol ar fenywod. Does dim datganiad clir o amcanion polisi'r llywodraeth i fenywod sy'n troseddu neu sy'n debygol o aildroseddu, ac mae darpariaethau cytundebol y Cwmni Adsefydlu Cymunedol ar gyfer menywod yn weithredol ac yn sylfaenol, yn hytrach nag yn strategol. Does dim mesurau canlyniadau penodol ar gyfer menywod, ac nid yw'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr eto yn cyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad yn erbyn yr ychydig fesurau gweithredol sy'n bodoli.

Yn galonogol, fe welsom ganlyniadau iechyd meddwl ychydig yn well ar gyfer menywod nag ar gyfer y sawl a arolygwyd yn 2011. Fe welsom ostyngiad yn argaeledd llety i fenywod, fodd bynnag, ac ansicrwydd a phryder sylweddol am ariannu gwasanaethau i fenywod nawr ac yn y dyfodol. Ers cyflwyno rhaglen *Gweddnewid Adsefydlu*, mae ariannu penodol ar gyfer gwasanaethau cymunedol i fenywod mwy neu lai wedi diflannu, ac mae'r ddarpariaeth yn gymysg ac yn ansicr. Mae wedi bod yn anodd cadarnhau maint a ffynonellau'r ariannu sydd ar gael nawr, ond mae'n glir bod ariannu penodol ar gyfer gwaith gyda menywod sy'n troseddu yn ansylweddol ar ei orau, ac yn aml yn gyfyngedig o ran amser.

Mae canolfannau menywod yn arbennig o fregus ac mae rhai eisoes wedi colli ariannu, ond mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae. Fe welsom achosion lle roeddent wedi bod yn ganolog wrth droi menywod i ffwrdd o droseddu a'u helpu i ail-adeiladu eu bywydau, ond yn aml roedd menywod sy'n troseddu yn dewis peidio â chymryd rhan, am nifer o resymau. Yn ein barn ni, mae canolfannau menywod angen ariannu a chefnogaeth strategol, er mwyn iddynt gyflawni eu potensial gyda'r grŵp hwn o fenywod.


Mae argaeledd a maint y ddarpariaeth yn y gymuned ar gyfer menywod sy'n troseddu yn dal yn anghyson, ond nid yw hyn yn syndod o ystyried prinder ariannu penodol, ac wrth i ofynion rhoi rhaglen *Gweddnewid Adsefydlu* ar waith dynnu sylw i ffwrdd o ddatblygu gwasanaethau ar gyfer menywod sy'n troseddu.

---

[1] *Adroddiad Corston: Adroddiad gan y Farwnes Jean Corston o adolygiad o fenywod gyda pheryglon penodol yn y system cyfiawnder troseddol,* y Swyddfa Gartref (2007)

[2] *Thematic inspection report: Equal but different – an inspection of the use of alternatives to custody for women offenders.* Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2011)

Bron degawd ar ôl adroddiad Corston, fe welsom ostyngiadau ac ansicrwydd yn ymwneud ag ariannu, diffyg ffocws strategol neu weithredol ar ganlyniadau i fenywod, a dim gwell monitro a gwerthuso na phan adroddon ni yn 2011.



**Y Fonesig Glenys Stacey**
**Prif Arolygydd Prawf ei Mawrhydi**

**Medi 2016**

Cynnwys

Rhagair ..........................................................................................................3

Ffeithiau allweddol ...........................................................................................6

Crynodeb gweithredol ......................................................................................7

Argymhellion ....................................................................................................10

1. Cyflwyniad ......................................................................................................12

2. Arweiniad, rheolaeth a phartneriaethau .......................................................18

3. Dedfrydu menywod ...................................................................................... 20

4. Lleihau aildroseddu ........................................................................................24

5. Amddiffyn y cyhoedd a rheoli peryglon .........................................................28

6. Cydymffurfio â dedfryd y llys neu'r drwydded ..............................................31

7. Canolfannau menywod ...................................................................................32

8. Barn menywod sy'n troseddu ......................................................................... 37

Atodiad A - Geirfa ...............................................................................................39

Atodiad B - Diolchiadau .......................................................................................41

Atodiad C - Methodoleg yr arolygiad ...................................................................45

Atodiad D - Rôl Llais y Defnyddiwr .......................................................................48

Atodiad E - Rôl yr arolygiaeth a chod ymarfer .....................................................49

## Ffeithiau allweddol

| | |
|---|---|
| **14%** | Cyfran y collfarnau ar gyfer troseddau ditiadwy yn cynnwys menywod, o gymharu â 86% yn cynnwys dynion (Menywod a'r System Cyfiawnder Troseddol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2013). |
| **10%** | Cyfran y troseddwyr oedd yn cael eu goruchwylio gan y gwasanaethau prawf a oedd yn fenywod (Ystadegau Llwyth Gwaith Rheoli Troseddwyr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Rhagfyr 2015). |
| **12.4 mis** | Hyd gorchymyn cymunedol ar gyfartaledd i fenywod, o gymharu â 15.1 mis i ddynion (Ystadegau Llwyth Gwaith Rheoli Troseddwyr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Rhagfyr 2015). |
| **25%** | Cyfran gorchmynion cymunedol i fenywod a oedd yn drosedd o ddwyn a thrin, o gymharu â 13% ar gyfer dynion (Ystadegau Llwyth Gwaith Rheoli Troseddwyr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Rhagfyr 2015). |
| **73%** | Cyfran gorchmynion cymunedol i fenywod y'u gorffennwyd yn llawn neu a derfynwyd yn gynnar am gynnydd da, o gymharu â 68% i ddynion (Ystadegau Llwyth Gwaith Rheoli Troseddwyr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Rhagfyr 2015). |
| **+20** | Cynnydd yn y pwynt canrannol o gyflawniadau llwyddiannus ar gyfer menywod ar orchmynion cymunedol ers 2006, cynnydd o +17 pwynt canrannol i ddynion (Ystadegau Llwyth Gwaith Rheoli Troseddwyr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Rhagfyr 2015). |
| **18%** | Y gyfradd aildroseddu un flwyddyn ar gyfer menywod, o gymharu â 26% ar gyfer dynion (Aildroseddu Profedig, Hydref 2013 i Fedi 2014, y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2016). |
| **-2.7%** | Y gostyngiad yn y gyfradd aildroseddu brofedig un flwyddyn ers 2003, o gymharu â -2.0% ar gyfer dynion (Aildroseddu Profedig, Hydref 2013 i Fedi 2014, y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2016). |
| **7** | Anghenion blaenoriaeth a adnabuwyd ar gyfer menywod, yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, rheoli emosiynau, hunaniaeth rhag-gymdeithasol, rheoli bywyd dyddiol a bod ag amcanion, cyswllt teuluol a chyfalaf cymdeithasol. |
| **3** | Gofynion cytundebol rhyw benodol ar gyfer Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. |

## Crynodeb Gweithredol

### Yr arolygiad

Diben yr arolygiad hwn oedd archwilio gwasanaethau i fenywod sy'n troseddu yn dilyn rhoi rhaglen *Gweddnewid Adsefydlu* ar waith, ac archwilio ansawdd ac effeithiolrwydd y gwaith gyda menywod a gomisiynwyd, a gyflwynwyd neu a gyrchwyd gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn rhwng Tachwedd 2015 ac Ionawr 2016. Roedd sampl yr arolygiad yn cynnwys 72 achos o fenywod a oedd wedi cael dedfryd o orchymyn cymunedol, gorchymyn dedfryd ohiriedig neu eu rhyddhau ar drwydded.

### Gwybodaeth gyd-destunol

Ym mis Mehefin 2014, o dan raglen *Gweddnewid Adsefydlu* y llywodraeth, rhannwyd gwasanaethau prawf yn Wasanaeth Prawf Cenedlaethol a 21 Cwmni Adsefydlu Cymunedol newydd. Mae Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol y sector cyhoeddus yn cynghori llysoedd ar yr holl droseddwyr, ac yn rheoli'r troseddwyr hynny sy'n dangos risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol, neu sy'n cael eu rheoli o dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd. Mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn goruchwylio mwyafrif y troseddwyr eraill sy'n dangos risg isel a chanolig o niwed. Roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gweithredu fel cwmnïau mewn perchnogaeth gyhoeddus tan 01 Chwefror 2015 pan drosglwyddon nhw i wyth darparwr, yn y sector preifat yn bennaf. Mae tua 80% o achosion yn cael eu dyrannu i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac 20% i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Yn 2013-2014, darparwyd £3.78m o ariannu gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a oedd wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau cymunedol i fenywod. Roedd yr arian ar gael trwy gytundebau gyda'r Ymddiriedolaeth Prawf[3]. Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr wedi cadarnhau bod hyn bellach yn llunio rhan o ariannu'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol; nid yw gwasanaethau ar gyfer menywod bellach yn cael eu hadnabod ar wahân. Mae hyn yn golygu nad yw'r ariannu ar gyfer darpariaeth i fenywod bellach yn cael ei glustnodi, felly mae bellach yn ddewisol ac yn ddibynnol ar drefniadau comisiynu lleol gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol, ynghyd â darpariaeth benodol a ariannir gan bartneriaid eraill, megis awdurdodau lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu. Does dim cosbau cytundebol ar gyfer y sawl nad ydynt yn ariannu gwasanaethau pwrpasol i fenywod.

Yn gynharach eleni, mewn proses cynnig a dargedwyd, fe ddyfarnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder £200k i bum ardal leol i gefnogi datblygu 'Ymagwedd System Gyfan' at fenywod yn y system cyfiawnder troseddol.

Does dim data wedi'i gyhoeddi am gyfanswm yr ariannu sydd ar gael ledled Cymru a Lloegr i ddarparu gwasanaethau cymunedol i fenywod.

### Arweiniad, rheolaeth a phartneriaethau

Yn gyffredinol, fe welsom ddiffyg ffocws ar ganlyniadau i fenywod, yn strategol ac yn weithredol. Mae hyn yn gyferbyniad i ganfyddiadau ein harolygiad ar y cyd yn 2011, lle gwelsom gyfoeth o weithgarwch yn rhanbarthol ac yn lleol, yn dilyn yr arweiniad cryf a ddarparwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Ymddengys bod gofynion mwy enbyd rhoi rhaglen *Gweddnewid Adsefydlu* ar waith wedi tynnu sylw i ffwrdd oddi wrth ddatblygu arferion a gwasanaethau i fenywod sy'n troseddu.

[3] *Funding of women's centres in the community*: Briff ar gyfer y Pwyllgor Dethol Cyfiawnder, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (Mai 2013)

Daeth ein harolygiad i'r casgliad, yn absenoldeb unrhyw ymagwedd genedlaethol benodol, bod arweiniad strategol ar reoli menywod yn y gymuned yn amrywio'n fawr. Mewn rhai ardaloedd, roedd uwch reolwyr yn cael eu dynodi i arwain y gwaith gyda menywod a oedd wedi troseddu. Roedd gan eraill bencampwyr tîm menywod neu un pwynt cyswllt penodol. Mewn ardaloedd eraill, roedd yr arweiniad yn annigonol. Roedd diffyg eglurder o ran rheolaeth strategol ac atebolrwydd dros fenywod a oedd wedi troseddu, ac nid oedd yn flaenoriaeth. Fe welsom fod darpariaeth gwasanaethau i fenywod yn well mewn ardaloedd lle roedd arweiniad dynodedig ar gyfer troseddu gan fenywod.

Fe grëwyd argraff dda gan wybodaeth a sgiliau mudiadau'r sector gwirfoddol a oedd yn gweithio gyda menywod, a'u hymrwymiad i ganlyniadau ehangach, y tu hwnt i aildroseddu. Dywedodd rhai mudiadau'r sector gwirfoddol wrthym, fodd bynnag, fod ariannu yn aml yn ansicr a bod y taliad yn aml yn dod ar ôl y gwneud y gwaith, a bod hyn yn ei gwneud yn anodd cynllunio gwasanaethau at y dyfodol.

Fe welsom fod llai nag un swyddog cyfrifol ym mhob pedwar wedi derbyn hyfforddiant a chyfarwyddyd mewn perthynas â rheoli achosion yn ymwneud â menywod yn benodol. Roedd hyn yn bryder o ystyried ein canfyddiadau yn ein harolygiad ar y cyd yn 2011, bod nifer o ymarferwyr â diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth sylfaenol i weithio'n effeithiol gyda menywod.

## Dedfrydu

Roedd Ynadon a Barnwyr Rhanbarth (dedfrydwyr) yn gyffredinol yn gadarnhaol am eu perthynas waith gyda staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Fe ddywedon nhw eu bod fel arfer yn gallu cael gafael ar ddigon o wybodaeth o adroddiadau cyn-dedfrydu ar fenywod, i fod yn sail i benderfyniadau dedfrydu.[4] Fe ddywedon nhw, fodd bynnag, nad oedd adroddiadau fel arfer yn benodol ar gyfer menywod ac nad oeddent yn gwahaniaethu rhwng anghenion menywod a dynion. Roedd hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau, sef ein bod wedi darganfod ei bod ddim bob tro'n bosib adnabod rhyw yr unigolyn o ddarllen yr adroddiad.

Nid oedd gan ddedfrydwyr wybodaeth am ymyriadau wedi'u dylunio'n arbennig ar gyfer menywod, yn benodol, gofynion gweithgarwch adsefydlu a gwasanaethau cefnogi lleol. Yn yr un modd, darganfuwyd yn ein hadroddiad *Gweddnewid Adsefydlu* (Mai 2016), a oedd yn cynnwys achosion dynion a menywod, nad oedd staff y llysoedd yn ddigon ymwybodol o'r hyn roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gallu eu cynnig, er mwyn gallu cynghori'r llys yn briodol mewn perthynas â gofynion gweithgarwch adsefydlu. Roedd y diffyg cyfathrebu yn destun pryder.

O fewn sampl ein hachos, fe ddarganfuom fod swyddogion cyfrifol wedi gweithio'n galed i gefnogi menywod i gydymffurfio â'u gorchymyn llys. Lle roedd absenoldebau wedi digwydd, roedd yr ymateb iddynt yn briodol mewn dros 90% o achosion, er enghraifft, trwy gyhoeddi llythyron neu fynd yn ôl gerbron y llys lle roedd angen.

## Lleihau aildroseddu

Fe welsom rai esiamplau unigol ardderchog o waith yn cael ei wneud gan swyddogion cyfrifol gyda menywod, ac esiamplau da iawn o weithio mewn partneriaeth. Roedd ansawdd y gwaith gan wasanaethau prawf i leihau troseddu gan fenywod (yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol), fodd bynnag, yn amrywio'n sylweddol. Fe welsom ymagwedd anghyson at adnabod a mynd i'r afael ag anghenion rhyw-benodol menywod a oedd wedi

[4] Darganfuwyd yn ein hadroddiad *Gweddnewid Adsefydlu Gweithrediad Cynnar 5, Arolygiad annibynnol o'r trefniadau i oruchwylio troseddwyr*: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (Mai 2016), a oedd yn cynnwys achosion dynion a menywod, bod adroddiadau ysgrifenedig yn gyffredinol yn dda ond bod nifer o adroddiadau ar lafar yn darparu gwybodaeth annigonol i gynorthwyo'r llysoedd gyda dedfrydu.

troseddu ar bob cam o'u proses trwy'r system cyfiawnder troseddol. Fe welsom hefyd fod darparu gwasanaethau i fenywod yn y gymuned o ansawdd ac argaeledd amrywiol.

Roedd y bwlch mwyaf yn argaeledd yr ymyriadau addas ar gyfer menywod mewn perthynas â llety. Roedd hyn yn destun pryder o ystyried bod problemau gyda llety yn gallu bod yn rhwystr sylweddol at gynnydd mewn meysydd eraill o fywydau menywod.

Darganfuom fod y rhan fwyaf o fenywod yn cael cynnig y cyfle i gael swyddog cyfrifol benywaidd. Nid oedd pob menyw, fodd bynnag, yn cael cynnig y cyfle i adrodd, cael apwyntiadau neu ymgymryd â'u rhaglenni gwaith mewn awyrgylch menywod yn unig, er gwaethaf gofynion cytundebol Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i wneud hynny lle roedd hynny'n ymarferol. Roedd hyn yn debygol o fod yn rhwystr at ymrwymiad i rai menywod. Ychydig o esiamplau a welsom o waith di-dâl yn cael ei wneud gan fenywod yn yr achosion a arolygom. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith di-dâl i fenywod yn cael ei gwblhau o fewn lleoliadau unigol, , siopau elusennol fel arfer, ac, yn galonogol, ni welsom esiamplau o fenywod yn cael eu rhoi fel yr unig fenyw o fewn grŵp cymysg.

### Amddiffyn y cyhoedd a rheoli peryglon

Roedd gwaith gwasanaethau prawf i reoli'r risg o niwed roedd menywod yn ei beri i eraill yn cael ei wneud yn dda yn y mwyafrif o achosion. Lle roedd risg rhagweladwy neu rwystradwy i'r cyhoedd, dioddefwyr, plant neu staff gan fenywod, fe ddarganfuom fod gwasanaethau prawf a phartneriaid wedi cymryd pob cam rhesymol.

Roedd 13 achos yn y sampl a oedd yn destun Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd, ac fe ddarganfuom fod y rhain wedi cael eu rheoli'n dda.

Roeddem yn pryderu, fodd bynnag, wrth ddarganfod nad oedd y gwaith i reoli a lleihau bregusrwydd menywod a oedd wedi troseddu wedi cael ei wneud yn ddigonol mewn un achos ym mhob tri yn y sampl. Roedd y meysydd gwannach yn ymwneud â mynd i'r afael â cham-drin domestig, cam-driniaeth rywiol a chamdriniaeth arall o fenywod, megis cael gafael ar gyffuriau neu alcohol ar gyfer eraill.

### Canolfannau menywod

Roedd ariannu yn bryder mawr i ganolfannau menywod ar adeg ein harolygiad. Roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn mynd trwy gyfnod o ystyried dyraniadau eu cyllideb a chomisiynu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Roedd gan nifer o ganolfannau menywod gytundebau dros dro neu 'dreigl', gyda'r mwyafrif am gyfnod o dri mis. Roedd hyn wedi arwain at ansicrwydd am ariannu, staffio a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol.

Roedd gwaith ardderchog ac ysbrydoledig yn cael ei wneud mewn canolfannau menywod. Roedd y gwasanaethau yn rhyw-benodol ac yn sensitif i anghenion ac amrywiaeth y menywod sy'n troseddu. Roedd agosrwydd y canolfannau, fodd bynnag, a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn ffactorau pwysig wrth benderfynu a oedd menywod yn gallu elwa o'r gwasanaethau oedd ar gael. Mewn rhai ardaloedd, roedd gan fenywod fynediad at ganolfannau menywod o fewn eu cymunedau, gan ddarparu awyrgylch menywod yn unig, cefnogaeth ac amrywiaeth o raglenni ac ymyriadau wedi'u teilwra at eu hanghenion unigol. Nid oedd hyn yn opsiwn ar gyfer pob menyw a oedd wedi troseddu.

ON: Trwy gydol yr adroddiad hwn mae'r enwau y cyfeirir atynt yn yr esiamplau o arfer wedi cael eu haddasu i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.

## Argymhellion

### Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder:

- egluro ei hamcanion polisi strategol ar gyfer menywod sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o aildroseddu
- egluro'r ffynonellau a'r symiau o ariannu sydd ar gael i ddarparwyr gwasanaethau i fenywod sy'n troseddu, yn benodol yr ariannu i gefnogi canolfannau menywod.

### Dylai'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr:

- gynnal adolygiad cenedlaethol o gydymffurfio yn erbyn gofynion cytundebol rhyw-benodol mewn perthynas â menywod sy'n troseddu, a lle bo angen, dwyn darparwyr gwasanaeth i gyfrif.

### Dylai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol:

- gyfathrebu gwybodaeth yn rheolaidd am ddarpariaeth gofynion gweithgarwch adsefydlu ar gyfer menywod i ddedfrydwyr, eu swyddogion cyfrifol eu hunain, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac asiantaethau partner
- sicrhau bod gwybodaeth am sut all y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a chomisiynwyr gwasanaethau eraill brynu gwasanaethau yn glir ac yn cael ei gyfathrebu'n glir.

### Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol:

- gael strwythurau yn eu lle i ddarparu gwybodaeth amserol i ddedfrydwyr am anghenion menywod sy'n troseddu a'r ymyriadau sydd ar gael yn lleol
- sicrhau bod adroddiadau cyn-dedfrydu'n cymryd anghenion penodol menywod sy'n troseddu i ystyriaeth.

### Dylai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol:

- ddarparu eglurder a ffocws i'r rheolaeth strategol, atebolrwydd a chynllunio ar wasanaethau i fenywod, er enghraifft, trwy benodi uwch swyddog arweiniol ym mhob ardal
- datblygu gwell dealltwriaeth o broffil menywod sy'n troseddu yn yr ardal, er mwyn bod yn sail i ymatebion ac ymagweddau yn seiliedig ar anghenion i'r gwaith a gyflwynir
- sicrhau bod swyddogion cyfrifol yn derbyn hyfforddiant rhyw-benodol addas er mwyn iddynt allu adnabod risg a ffactorau amddiffynnol yn ymwneud â throseddu menywod, cymryd ffactorau rhyw-benodol i ystyriaeth wrth ysgrifennu adroddiadau ac wrth bennu'r ymyriadau mwyaf addas ar gyfer menywod
- cynnig cyfle i fenywod adrodd, cael eu hapwyntiadau ac ymgymryd â'u rhaglenni mewn awyrgylch menywod yn unig lle bo'n ymarferol, er mwyn gwella'u presenoldeb a chael gwared ar rwystrau i ymrwymiad
- cyfeirio menywod sy'n troseddu at ganolfannau menywod am gefnogaeth ac ymyrraeth lle bynnag y bo'n bosib ac addas, gan sicrhau bod menywod sy'n cael eu cyfeirio at ganolfan fenywod yn cael eu cefnogi a'u hannog i fynychu er mwyn gwella cyfraddau presenoldeb

- monitro a gwerthuso cynnydd menywod yn ystod eu gorchmynion neu drwyddedau statudol er mwyn dangos pa ganlyniadau sydd wedi cael eu cyflawni ac er mwyn adnabod arfer addawol.

# 1. Cyflwyniad

## Troseddu a dedfrydu menywod

Mae tua 1 carcharor ym mhob 20 yn fenyw. Ar 31 Rhagfyr 2015[5], cyfanswm y boblogaeth yn y carchar oedd 84,968, gyda 3,825 (4.5%) ohonynt yn fenywod. Mae cyfran y dynion a'r menywod o dan oruchwyliaeth brawf yn wahanol, ond serch hynny, dim ond un ym mhob deg sy'n fenyw. Ar yr un dyddiad, roedd 241,144 o droseddwyr yn cael eu goruchwylio gan y gwasanaeth prawf (gan gynnwys y sawl sy'n destun goruchwyliaeth cyn ac ar ôl rhyddhau), o'r rhain, roedd 23,851 (10%) yn fenywod.

Yn gyffredinol, mae menywod yn cyflawni llai o droseddau difrifol ac yn cael dedfrydau byrrach na dynion; roedd 78% o dderbyniadau mewn carchardai i fenywod yn gwneud dedfryd o lai na 12 mis, o'i gymharu â 70% o dderbyniadau mewn carchardai i ddynion (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2016), a hyd gorchmynion cymunedol a gorchmynion dedfrydau gohiriedig oedd 12.4 mis a 17.7 mis ar gyfer menywod, o'i gymharu â 15.1 mis a 18.5 mis ar gyfer dynion (Ystadegau Llwyth Gwaith Rheoli Troseddwyr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2015). Mae menywod sy'n troseddu yn dueddol o gyflawni troseddau meddiangar, yn hytrach na rhai treisgar.

Nid yw'r sbardunau ar gyfer menywod yn troseddu wedi newid ers i ni adrodd ddiwethaf yn 2011. Y ffactorau sy'n gysylltiedig ag atgwympo cyffredinol yw: personoliaeth anghymdeithasol (problemau gyda rheoli mympwyon, rheoli emosiwn a gelyniaeth), cyfoedion anghymdeithasol, agweddau anghymdeithasol a cham-drin sylweddau[6]. Mae troseddau treisgar yn gysylltiedig â cham-drin alcohol, tra bod troseddau meddiangar a llithio yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau difrifol.

Tra bod yr un ffactorau'n gallu bod yn berthnasol i ddynion a menywod, mae cryfder y perthnasoedd yn gallu amrywio. Felly, er enghraifft, noda adolygiad o'r dystiolaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2014[7] bod camddefnyddio sylweddau wedi cael perthynas gryfach gydag aildroseddu ar gyfer menywod na dynion, a noda crynodeb o dystiolaeth ar gyfer Llywodraeth yr Alban yn 2015 fod anghenion eraill nad ydynt yn rhai troseddegol, megis camdriniaeth, trawma ac iselder hefyd yn arbennig o gyffredin ymhlith menywod.[8]

Mae gan fenywod gyfraddau aildroseddu profedig is na dynion. Felly, er enghraifft, ar gyfer y troseddwyr sy'n oedolion a ryddhawyd o'r ddalfa, a dderbyniodd gollfarn anwarchodol yn y llys, neu a dderbyniodd rybudd yn ystod y cyfnod rhwng Gorffennaf 2013 a Mehefin 2014, y cyfraddau aildroseddu un flwyddyn oedd 18.3% ar gyfer menywod a 26.4% ar gyfer dynion.[9]

Mae nifer o ymchwilwyr wedi awgrymu bod gwahaniaethau pwysig pam fod menywod a dynion yn troi i ffwrdd oddi wrth droseddu. Mae menywod ifanc yn gallu cynnig rhesymau moesegol fel arfer dros stopio troseddu ac maen nhw'n fwy tebygol o bwysleisio agweddau perthynol gan gynnwys ymagweddau rhieni, profiadau o annhegwch, cymryd cyfrifoldebau rhianta ymlaen a

---

[5] *Ystadegau chwarterol ar reoli troseddwyr: Hydref i Ragfyr 2015:* Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2016)

[6] *A compendium of research and analysis on the Offender Assessment System (OASys) 2009-2013*: Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr - Cyfres Ddadansoddi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (2015)

[7] *Transforming Rehabilitation: a summary of evidence on reducing reoffending (second edition):* Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2014).

[8] Sapouna M., Bisset, C., Conlong, A-M., a Matthews, B. (2015) *What Works to Reduce Reoffending: A Summary of the Evidence.*

[9] *Ystadegau chwarterol aildroseddu profedig: Gorffennaf 2013 i Fehefin 2014:* Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2016)

datgysylltiad oddi wrth gyfoedion sy'n troseddu. Yn tanategu rhesymu moesegol menywod mae moeseg gyffredinol o ofal a chyfrifoldeb tuag at eraill.[10]

Mae rhai ffactorau (megis darpariaeth gofal plant neu gamdriniaeth ddomestig) yn gwneud cyfranogiad mewn gwaith prawf yn anoddach i fenywod na dynion, gan fod cydnabyddiaeth gyffredinol bod angen i ymagweddau at fynd i'r afael â throseddu gan fenywod fod yn rhyw benodol. Yn 2011, fe adroddom mai'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan nifer yn y system cyfiawnder troseddol oedd mynd i'r afael â materion mewn modd holistaidd er mwyn cael siawns realistig o wyro menyw i ffwrdd oddi wrth droseddu neu ei helpu i ymatal rhag troseddu. Ers hynny, awgryma adolygiad o ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar[11] bod y canlynol yn lleihau aildroseddu gan fenywod:

- triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau, yn benodol, rhaglenni yn y ddalfa neu rai cymunedol therapiwtig sy'n defnyddio ymyrraeth wybyddol ymddygiadol gan ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau
- rhaglen wybyddol ymddygiadol rhyw ymatebol sy'n pwysleisio cryfderau a galluoedd cyfredol, yn ogystal â dysgu sgiliau
- rhaglenni cyfnewid opioidau (e.e. methadon) yn y gymuned, a allai leihau cyfraddau troseddu tra bod y menywod yn derbyn triniaeth
- rhaglenni hybu sy'n cynorthwyo i gynnal effeithiau triniaeth trwy waith dilynol yn y gymuned, sy'n ymddangos fel pe baent yn cyfrannu at well ganlyniadau
- ymagweddau rhyw ymatebol, sy'n addawol iawn mewn perthynas â rhaglenni rhyw-niwtral.

Gan adeiladu ar yr adolygiad hwnnw, ym mis Medi 2015, fe nododd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr saith maes blaenoriaeth ar gyfer cefnogaeth ac ymyrraeth, yn seiliedig ar eu tystiolaeth orau o 'beth sy'n gweithio' wrth leihau troseddu gan fenywod, eu cadw'n ddiogel a chreu bywydau gwell. Amlinellwyd yr anghenion blaenoriaeth hyn yn *Better Outcomes for Women Offenders* (2015), yr egwyddorion comisiynu ar gyfer troseddwyr sy'n fenywod, a'u nod yw hyrwyddo deialog gyda darparwyr cyfredol yn ogystal â hysbysu darparwyr newydd a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Fe amlinellir yr anghenion blaenoriaeth isod:

- camddefnyddio sylweddau - sefydlogi a mynd i'r afael ag anghenion unigol, yn benodol defnydd o gyffuriau dosbarth A, goryfed mewn pyliau ac yfed cronig
- iechyd meddwl - hwyluso gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl, yn benodol, pryder ac iselder, anhwylder personoliaeth, anhwylder straen ôl-drawmatig a thrawma
- rheoli emosiwn - helpu menywod i adeiladu sgiliau i reoli ymddygiad mympwyol ac emosiynau dinistriol
- hunaniaeth rhag-gymdeithasol - bod yn sensitif tuag at, am, ac o amgylch menywod a'u hannog i helpu a bod yn bositif tuag at eraill

[10] Sapouna M., Bisset, C, Conlong, A-M., a Matthews, B. (2015) *What Works to Reduce Reoffending: A Summary of the Evidence.*
[11] *Effective interventions for Women offenders: A Rapid Evidence Assessment*: Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (2015)

- bod mewn rheolaeth o fywyd o ddydd i ddydd a chael amcanion - ysgogi menywod i gredu eu bod yn perthyn ac yn ffitio i mewn i gymdeithas brif ffrwd, lle gallant weithio i gyflawni eu hamcanion
- gwella cyswllt teuluol - helpu menywod i adeiladu perthnasoedd teuluol iachus a chefnogol, yn arbennig gyda'u plant
- ail-leoli ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol - helpu menywod i ddod o hyd i rywle diogel i fyw, dysgu sut i reoli'u harian, cael mynediad at addysg, a gwella'u cyflogadwyedd.

### Cyd-destun hanesyddol

Fe arweiniodd pryder am y cynnydd yn y boblogaeth fenywaidd yn y carchar yn yr 1990au hwyr at adolygiad o'r mentrau a oedd yn bodoli ar y pryd i weithio gyda menywod. Fe arweiniodd yr adroddiad a ddilynodd at sefydlu'r Rhaglen Lleihau Troseddu gan Fenywod, gyda'r nod o gysylltu mentrau strategol ar draws adrannau llywodraethol i fynd i'r afael â throseddu gan fenywod a mynd ar drywydd dewisiadau amgen i'r ddalfa.

Yn 2005, lansiwyd Prosiect Menywod Ynghyd, gydag ariannu wedi'i glustnodi yn benodol ar gyfer prosiectau cymunedol i leihau troseddu gan fenywod a mynd i'r afael ag anghenion menywod mewn perygl o droseddu. Roedd Prosiect Menywod Ynghyd hefyd yn anelu at wyro menywod o ddalfa'r carchar. Sefydlwyd canolfannau Prosiect Menywod Ynghyd yng Ngogledd Orllewin Lloegr ac yn ardaloedd Swydd Efrog a Glannau Humber y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr.

Codwyd proffil troseddu gan fenywod yn sylweddol yn 2007 gyda chyhoeddi Adroddiad Corston[12]. Daeth hyn yn sgil adolygiad o fenywod yn y system cyfiawnder troseddol yn dilyn nifer o farwolaethau a oedd wedi'u hunan-achosi yn y carchar. Roedd yr argymhellion a wnaethpwyd gan y Farwnes Jean Corston yn gosod yr agenda ar gyfer gweithio gyda menywod sy'n troseddu. Roeddent yn cynnwys gwneud gwarediadau cymunedol yn arferol, datblygu rhwydwaith ehangach o ddarpariaeth gymunedol 'siop un stop' ar gyfer menywod, a gwella'r llywodraethu lefel uchel a gweithio ar draws cymunedau ar gyfer menywod sy'n troseddu. Daeth ffrydiau ariannu cyfyngedig ar amser ar gyfer gweithio gyda menywod, gan gynnwys canolfannau menywod, yn sgil hyn, ac yn dilyn hyn, fe barhaodd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr gyda ffrydiau ariannu penodol i Ymddiriedolaethau Prawf.

Yn 201, fe gwblhaodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, ynghyd ag Arolygiaeth Erlyn y Goron ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, arolygiad thematig ar y cyd *Equal but different? - an inspection of the use of alternatives to custody for women offenders'.* Roedd hwn yn mesur cyfradd y cynnydd a oedd yn cael ei wneud gan Ymddiriedolaethau Prawf mewn perthynas â rhoi argymhellion Corston ar waith. Daeth yr arolygiad i'r casgliad: *'er bod llawer wedi cael ei gyflawni, mae'r ddarpariaeth i fenywod yn amrywio'n fawr ac mae'n anghyson'.*

Ar yr adeg honno fe adroddom fod yr arweiniad cryf a roddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr wedi bod yn llwyddiannus yn hyrwyddo swm sylweddol o weithgarwch yn rhanbarthol ac yn lleol mewn perthynas â throseddwyr sy'n fenywod, er, yn gyffredinol, nid oedd mesurau i asesu cynnydd wedi'u datblygu'n ddigonol. Roedd yn amlwg, gyda'r newidiadau sydd ar ddod i'r gwasanaeth prawf, y byddai cynaliadwyedd a datblygiad dilynol y gwasanaethau i fenywod sy'n troseddu yn dibynnu ar ariannu ac ymrwymiad gan y gwasanaethau prawf gyda darparwyr lleol. Roedd cydnabyddiaeth bod

[12] *Adroddiad Corston: Adroddiad gan y Farwnes Jean Corston o adolygiad o fenywod gyda pheryglon penodol yn y system cyfiawnder troseddol,* y Swyddfa Gartref (2007)

ymagwedd gyson wedi'i chydlynu'n lleol at anghenion menywod yn hanfodol, gyda chomisiynu ar y cyd yn hanfodol ar gyfer llwyddiant unrhyw drefniadau o'r fath. Roedd argymhellion yr adroddiad yn cynnwys cynnal ffocws penodol ar fenywod trwy gydol datblygu mesurau canlyniad effeithiol, wedi'u cefnogi gan fonitro a gwerthuso.

Sefydlwyd y Bwrdd Cynghori ar gyfer Troseddwyr sy'n Fenywod ym mis Mawrth 2013 ochr yn ochr â chyhoeddiad y ddogfen *Strategic Objectives for Female Offenders*[13] gan y llywodraeth glymblaid ar y pryd. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, gan ddod â rhanddeiliaid allweddol, partneriaid cyfiawnder troseddol ac uwch swyddogion o ledled y llywodraeth ynghyd i ddarparu cyngor arbenigol a herio datblygiad a chyflwyniad polisi i wella triniaeth troseddwyr sy'n fenywod. Mae hyn yn cynnwys: ymyrraeth gynnar a gwyro, a datblygiad Ymagweddau System Gyfan lleol at droseddwyr sy'n fenywod, gwasanaethau adsefydlu ar gyfer troseddwyr sy'n fenywod a sicrhau ystâd warchodol ar gyfer menywod sy'n canolbwyntio ar fenywod ac sy'n adsefydlu. Mae'r Bwrdd wedi goruchwylio datblygiad mentrau Ymagwedd System Gyfan mewn nifer fechan o ardaloedd lleol gan gynnwys o fewn rhai ardaloedd yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolygiad hwn. Ymhlith yr esiamplau mae Cymru - Cynllun Braenaru i Fenywod, a Manceinion Fwyaf (gweler esiamplau o arfer arloesol ym Mhennod 3).

Cynrychiolir Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar y Bwrdd, a bydd canfyddiadau'r arolygiad hwn yn cael eu cyflwyno i'w trafod.

### Sbardunau arferion cyfredol

Ym mis Ebrill 2011, daeth dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus i rym[14], a grëwyd o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010.* Roedd Adran 10 o *Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 2014*[15] yn ail-nodi'r ddyletswydd gydraddoldeb ac yn gofyn bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn ystyried anghenion penodol menywod. Byddai'r ddyletswydd gydraddoldeb hefyd yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu a'u rheoli trwy gytundeb gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol neu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, gan dderbyn arian sydd wedi dod trwy bwrs cyhoeddus y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a chomisiynwyr eraill gwasanaethau yn gallu dewis prynu gwasanaethau o Gwmni Adsefydlu Cymunedol sydd yn ei dro'n gallu is-gontractio cyflwyno'r gwasanaeth i ddarparwyr gwasanaeth arbenigol. Ym mis Ebrill 2015, rhoddwyd proses ffurfiol ar waith rhwng y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, gyda manylion am y gwasanaethau a'r ymyriadau ar gael ynghyd â'r gost ar 'gardiau cyfradd' ar gyfer pob ardal. O'r 01 o fis Mai 2015, roedd y gwasanaethau hyn yn cynnwys: gwaith di-dâl, rhaglenni achrededig, gwasanaethau ail-leoli ac unrhyw wasanaethau eraill yn ôl disgresiwn, y cyfeirir atynt yn aml fel 'gwasanaethau dewisol'. Ar adeg ein harolygiad, roedd y broses hon yn y cyfnod cynnar o'i rhoi ar waith ac roedd yn rhy gynnar i fesur ei heffeithiolrwydd.

Mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn derbyn tri phrif daliad o dan eu cytundebau newydd: ffi am wasanaeth (ar gyfer cwblhad gweithgareddau yn foddhaol), ffi defnyddio i dalu am waith a wneir ar gyfer eraill (gan gynnwys lle mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn comisiynu Cwmni Adsefydlu Cymunedol i ddarparu gwasanaethau) a - maes o law - taliad am ganlyniadau, wedi'i sbarduno gan leihad mewn aildroseddu ar ôl dwy flynedd[16]. Nid oes unrhyw un o'r gwasanaethau hyn yn gwahaniaethu rhwng rhaglenni a ddarperir ar gyfer menywod, yn hytrach na gwasanaethau ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli

---

[13] *Strategic Objectives and Female Offenders*: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2013)
[14] http://www.equalityhumanrights.com/private-and-public-sector-guidance/public-sector-providers/public-sector-equality-duty/what-equality-duty
[15] *Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014*: Senedd y DU (2015)
[16] Dechreuodd y garfan gyntaf ar 1 Hydref 2015. Bydd unrhyw daliadau'n cael eu gwneud yn ystod 2017-2018.

Troseddwyr wedi cyflwyno tri gofyniad cytundebol rhyw-benodol y mae'n rhaid i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol eu bodloni mewn perthynas â rheoli menywod sy'n troseddu. 'Lle bo'n ymarferol', dylai menywod gael yr opsiwn o:

- gael swyddog cyfrifol benywaidd
- mynychu cyfarfodydd neu apwyntiadau mewn awyrgylch menywod yn unig
- peidio â chael eu rhoi mewn awyrgylch dynion yn unig am waith di-dâl neu i ofynion presenoldeb.

Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn gallu rheoli'r gofynion rhyw-benodol hyn ond nid oes unrhyw wybodaeth ar reolaeth a goladwyd yn genedlaethol ar gael eto mewn perthynas â naill ai cydymffurfio neu ddefnydd.

**Galw am dystiolaeth ac ymatebion i'r arolwg** (gweler Atodiad C - methodoleg yr arolygiad)

Yn gyffredinol, roedd y sawl a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth yn gadarnhaol am yr ymyriadau a oedd wedi'u teilwra i anghenion penodol menywod, ond yn bryderus am ariannu yn y dyfodol a phrif ffrydio gwasanaethau cyfredol i fenywod.

Dywedon nhw wrthym:

- mae menywod sy'n troseddu yn fwy tebygol o fod wedi dioddef camdriniaeth neu ecsploetiaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol. Maen nhw'n fwy tebygol o gael problemau iechyd meddwl ac yn fwy tebygol o hunan-niweidio na dynion
- mae menywod yn grŵp gwahanol o droseddwyr o fewn y system cyfiawnder troseddol gydag anghenion penodol na ellir eu bodloni trwy systemau cyffredinol wedi'u dylunio gyda dynion mewn golwg
- mae menywod yn tueddu i fod yn achosion gyda risg is: yn llai tebygol o fod yn droseddwyr difrifol neu dreisgar, yn fwy tebygol o fod yn droseddwyr meddiangar, cyflawni troseddau megis dwyn o siop neu droseddau twyll llai difrifol
- mae'r ymyriadau sy'n gweithio yn llai gwrthdrawiadol na rhai ymyriadau sy'n effeithiol gyda dynion. Maen nhw'n canolbwyntio ar y dyfodol: yn optimistaidd; yn ceisio adeiladu perthnasoedd cadarnhaol; yn ystyried trawma, trais ac erledigaeth; ac yn seiliedig o fewn y paradeim ymatal, gan bwysleisio cryfderau, aeddfediad a hunanwerth
- mae ymyriadau sy'n gweithio gyda menywod sy'n troseddu yn seiliedig ar adeiladu hyder a hunan-hyder: cynyddu sgiliau mewn perthnasoedd a bod yn rhiant, gwella lles corfforol a meddyliol, a mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.

Mae rhestr o'r mudiadau a gyfrannodd at ein galwad am dystiolaeth yn Atodiad B.

Soniodd pob ymatebwr ond un bod y gwaith maen nhw'n ei wneud gyda menywod yn wahanol i'r gwaith gyda dynion. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol o egwyddorion adroddiad Corston fod gan fenywod broffiliau troseddu gwahanol; fel arfer troseddau llai difrifol o natur feddiangar, yn peri llai o risg o niwed difrifol ac yn llai tebygol o lawer o fod wedi dioddef trawma neu drais, bod yn ddioddefwyr camdriniaeth, camdriniaeth rywiol ac ecsploetiaeth na throseddwyr sy'n ddynion.

Dywedodd rhai ymatebwyr o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol eu bod yn cynnig ymsefydlu menywod yn unig a swyddogion cyfrifol benywaidd ar gais. Dyma oedd crynodeb un ymatebwr o'u hymagwedd: *"Rydym yn trin menywod fel menywod yn gyntaf ac fel troseddwyr yn ail."* Roedd ymyriadau'n cael eu cynnig ar sail un i un a thrwy sesiynau gwaith grŵp. Trwy ddarparu man diogel menywod yn unig, mae ymyriadau'n mynd i'r afael ag

anghenion penodol megis adeiladu hunanhyder, gwella cyflogadwyedd, datblygu strwythur positif at fywyd, a sgiliau rhianta.

Adroddodd y rhan fwyaf (26 o 31 achos) bod canolfannau menywod yn gweithredu'n lleol. Roedd cyfeiriadau i ganolfannau menywod yn dod trwy'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol neu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu trwy hunan gyfeiriad. Roedd canolfannau menywod yn cynnig amrediad eang o wasanaethau i fenywod sy'n troseddu, a menywod eraill gydag anghenion cymhleth a lluosog.

Dywedodd pob un eu bod yn cyflwyno neu'n cael mynediad at ofynion gweithgarwch adsefydlu penodol ar gyfer menywod, ac roedd gan y mwyafrif (24 o 31 achos) adnoddau penodol ar gyfer menywod. Nododd rhai ymatebwyr bod unigedd gwledig yn rhwystr at gael mynediad at ymyriadau penodol i fenywod, yn ogystal â'r llwyth gwaith llai o fenywod yn gwneud rhai ymyriadau'n llai ymarferol. Adroddodd nifer o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol fod gweithgarwch adsefydlu penodol ar gyfer menywod, yn aml yn cael eu cyflwyno o ganolfannau menywod, yn boblogaidd gyda staff a defnyddwyr gwasanaeth.

Roedd barn yn amrywio ar sut roedd *Gweddnewid Adsefydlu* wedi effeithio ar waith gyda menywod, gyda 12 ymatebwr yn dweud bod dim newid, 12 yn nodi gwaethygiad, 6 yn nodi gwelliant ac 1 heb ateb. Nododd yr ymatebwyr a oedd wedi gweld gwelliant mewn gwaith gyda menywod fod partneriaethau'n gryfach, fod mwy o ddarparwyr ar gael a bod prosesau a gweithdrefnau wedi gwella.

Soniodd pedwar ymatebwr am ddryswch o ran cael mynediad at wasanaethau i fenywod ar ôl *Gweddnewid Adsefydlu*, ac fe ddywedon nhw fod y 'cerdyn cyfraddau' yn rhwystr at gael mynediad at wasanaethau. Dywedodd un ymatebwr nad oedd gwaith gyda menywod bellach wedi'i glustnodi ond yn dod o'r gyllideb gyffredinol ar gyfer ymyriadau. Soniodd dau ymatebwr fod y gyllideb benodol o'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ar gyfer gwaith gyda menywod wedi dod i ben a'i fod bellach yn ddewisol.

Mae rhestr o'r mudiadau a ymatebodd i'r arolwg yn Atodiad B.

## 2. Arweiniad, rheolaeth a phartneriaethau

Fe ystyriom effaith arweiniad strategol mewn perthynas â gweithio gyda menywod sy'n troseddu. Fe edrychom ar sut y gwnaethpwyd cynnydd, a chafodd canlyniadau i fenywod eu monitro a'u gwerthuso, er mwyn hysbysu effeithiolrwydd y gwaith.

Fe edrychom hefyd ar y gefnogaeth a roddwyd gan reolwyr i swyddogion cyfrifol yn eu gwaith gyda menywod, o ran goruchwyliaeth rheolwyr o'u hachosion a'r hyfforddiant a dderbynion nhw.

Fe ystyriom y rôl mae partneriaethau'n chwarae o ran sut mae gwasanaethau prawf yn gweithio gyda menywod.

**Canfyddiadau allweddol:**

### Arwain a rheoli

Yn ein harolygiad yn 2011 fe ddarganfuwyd bod swm sylweddol o waith wedi cael ei wneud ar lefel strategol i sicrhau bod anghenion penodol menywod yn cael eu hystyried o fewn y system cyfiawnder troseddol, a bod angen cadarnhau gwaith, ac ymgorffori'r newidiadau gofynnol yn yr arferion. Fe welsom gyfoeth o weithgarwch yn rhanbarthol ac yn lleol, gan ddilyn yr arweiniad cryf a ddarparwyd ar y pryd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Roeddem yn cydnabod y byddai cynnal yr agenda ar fenywod yn heriol o ystyried cyfyngiadau'r gyllideb, newid sefydliadol sylweddol a blaenoriaethau anghyson, ond yn hanfodol os oedd y buddsoddiad a wnaed eisoes yn mynd i gael ei wireddu'n llawn.

Ers hynny, mae newid sylweddol wedi bod i wasanaethau prawf gyda chyflwyno rhaglen *Gweddnewid Adsefydlu*. Mae arweinwyr prawf wedi gorfod canolbwyntio ar gynllunio newid i fodelau gweithredu gwasanaethau prawf a'u rhoi ar waith.

Fe welsom, yn absenoldeb ymagwedd genedlaethol benodol, fod yr ymagwedd strategol at reoli menywod yn y gymuned yn amrywio'n sylweddol. Roedd gan rai ardaloedd uwch reolwyr gyda phrif gyfrifoldeb dros y gwaith gyda menywod, ynghyd â rheolwyr canol yn arwain ar waith gyda menywod ym mhob clwstwr Uned Gyflwyno Leol. Roedd gan eraill bencampwyr tîm, gyda chyfrifoldeb dros godi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth. Fe welsom rai esiamplau o strategaethau a chynlluniau gweithredu ar gyfer menywod. Mewn ardaloedd eraill, fodd bynnag, doedd dim person penodol neu bencampwr tîm. Roedd diffyg eglurder i'r arweiniad, rheolaeth ac atebolrwydd ar gyfer menywod sy'n troseddu ac nid oedd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth.

Roedd diffyg ffocws ar ganlyniadau i fenywod, yn strategol ac yn weithredol. Roedd rhai swyddogion cyfrifol yn monitro cynnydd unigolion ond ychydig yn unig oedd yn derbyn gwybodaeth ddigonol am ganlyniadau. Nid oedd llawer o dystiolaeth o ddilyn i fyny ar gynnydd menywod y tu hwnt i'r cwblhau'u gorchmynion statudol neu drwyddedau. Roedd hyn wedi'i gymhlethu gan y ffaith, unwaith bod achos a reolwyd gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn cael ei gau, nid oedd y swyddog cyfrifol bellach yn gallu cael mynediad at y cofnod electronig i olrhain unrhyw gynnydd a wnaed.

Yn gyffredinol, roedd angen rhoi mwy o sylw i ddeall proffil menywod sy'n troseddu, er mwyn hysbysu ymatebion dan arweiniad anghenion ac ymagweddau at y gwaith a gyflwynir. Mae angen llawer mwy o fanyldeb wrth fonitro a gwerthuso cynnydd menywod, yn ystod a'r tu hwnt i'w gorchmynion statudol neu drwyddedau, er mwyn gwybod beth oedd yn effeithiol wrth weithio gyda'r menywod hynny. Roedd hyn yn bryder, o ystyried yr argymhellion o'n harolygiad yn 2011 y dylai Ymddiriedolaethau Prawf: 'barhau i gynnal ffocws ychwanegol ar fenywod er mwyn ymgorffori datblygiadau strategol mewn cyflawniad gweithredol trwy ddatblygu mesurau canlyniad effeithiol gyda chefnogaeth monitro, gwerthuso a goruchwyliaeth gan reolwyr'.

Roedd llai nag un o bob pedwar o'r swyddogion cyfrifol y cyfwelom â hwy wedi derbyn hyfforddiant a chyfarwyddyd arbenigol mewn perthynas â rheoli achosion menywod yn benodol, er enghraifft, y ffactorau risg ac amddiffynnol yn gysylltiedig â throseddu menywod, ystyriaethau rhyw benodol wrth ysgrifennu adroddiadau ac wrth bennu'r ymyriadau mwyaf addas. Roedd hyn yn siomedig, o ystyried canfyddiadau ein harolygiad yn 2011, nad oedd gan nifer o ymarferwyr yr ymwybyddiaeth a'r wybodaeth sy'n tanategu hynny i weithio'n effeithiol gyda menywod. Serch hynny, mewn 86% o'r achosion a arolygwyd gennym, roedd goruchwyliaeth gan reolwyr o'r gwaith wedi helpu swyddogion cyfrifol i gynorthwyo menywod i leihau eu haildroseddu, rheoli eu risg o niwed a bregusrwydd a chydymffurfio â'u dedfrydau.

Fe welsom ddiffyg cyffredinol o ddealltwriaeth o'r cerdyn cyfraddau y mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac eraill yn dibynnu arno i gomisiynu gwasanaethau oddiw rth Gwmni Adsefydlu Cymunedol, gyda dryswch o ran eu cynnwys, a sut a phryd y gellir prynu gwasanaethau. Mae hyn yn ategu'r hyn a ddywedodd rhai ymatebwyr i'n harolwg a anfonom at bob Cwmni Adsefydlu Cymunedol ac ardal y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr.

Roedd gwybodaeth a sgiliau'r sector gwirfoddol a oedd yn gweithio gyda menywod, a'u hymrwymiad i ganlyniadau ehangach ar gyfer y menywod hynny, y tu hwnt i aildroseddu, yn drawiadol. Fe welsom fod mudiadau statudol ac anstatudol megis cam-drin domestig, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at y gwaith gyda menywod mewn bron pob achos pan oedd yn ofynnol.

### Ariannu

Ar gyfer mwyafrif y canolfannau menywod yr ymwelom â hwy, fe ddarganfuom fod ansicrwydd am ddyfodol cynaliadwyedd gwasanaethau i fenywod. Roedd prosesau ail-gomisiynu neu ddatgomisiynu ar y gweill mewn rhai ardaloedd. Soniodd rhai gwasanaethau eu bod eisoes yn derbyn llai o ariannu. Roedd eraill yn ansicr am ariannu at y dyfodol ac yn destun cytundebau 'rholio ymlaen' (tri i chwe mis yn bennaf) tra bod dyfodol eu gwasanaethau yn cael ei ystyried, gan arwain at bryder am ariannu yn y dyfodol a chynaliadwyedd gwasanaethau. Roedd risg felly o golli staff medrus. Dywedodd rhai mudiadau sector gwirfoddol wrthym fod eu hariannu'n cael ei dalu ar ôl gwneud y gwaith (yn aml ar ffurf ôl-daliadau chwarterol) a oedd yn arwain at ragor o ansicrwydd ac yn rhwystro cynllunio at y dyfodol.

Mewn un ardal, fe welsom ddryswch ymysg swyddogion cyfrifol o ran a oeddent yn dal yn gallu cyfeirio menywod i'r ganolfan fenywod. Yn bennaf, nododd uwch reolwyr yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ymrwymiad at ariannu gwasanaethau i fenywod yn y dyfodol, er ar y pryd, nid oeddent yn gallu cynnig eglurder o ran maint y cytundebau, neu amserlen ar gyfer cadarnhau'r cytundebau.

Roeddem yn bryderus bod yr anawsterau ariannu hyn yn debygol o arwain at ostyngiad neu golled i’r gwasanaethau o fewn cymunedau sy'n cefnogi menywod sy'n troseddu. Soniodd un ganolfan am ostyngiad o 50% yn dilyn newidiadau i'w cytundeb. Roedd hyn yn golygu llai o ariannu, staffio a rhestr aros hir am wasanaethau.

Roedd o bwys bod cynaliadwyedd canolfannau menywod yn dal yn bryder; roedd hyn hefyd yn un o'n canfyddiadau yn ein harolygiad yn 2011 *Equal But Different?* : 'roedd cynaliadwyedd yn bryder allweddol ar gyfer yr holl ganolfannau. Lle roedd data yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn ddiffygiol, roedd hyn yn rhwystr i ragolygon y canolfannau i sicrhau ariannu at y dyfodol'.

## 3. Dedfrydu menywod

Yn ystod cyfnod gwaith maes yr arolygiad, fe gyfwelom â dedfrydwyr, rheolwyr timau cyfreithiol a swyddogion prawf y llysoedd i geisio eu barn am y gwaith a wneir gyda menywod a oedd wedi troseddu, a'i effaith.

Fe ofynnom i ddedfrydwyr sut roeddent yn cael gwybod am argaeledd a darpariaeth gwasanaethau i fenywod yn eu cymunedau. Fe ofynnom iddynt hefyd am eu barn ar effaith *Gweddnewid Adsefydlu* ar ddedfrydu a darpariaeth gymunedol i fenywod.

### Canfyddiadau allweddol:

### Adroddiadau'r llys

Roedd y llysoedd yn cael eu cynghori am opsiynau dedfrydu ac anghenion y menywod a oedd wedi troseddu trwy adroddiad cyn-dedfrydu mewn ychydig dros ddau achos o bob tri yn y sampl.

Yn ystod cyfnod yr arolygiad hwn, fe edrychom i weld a oedd yr adroddiadau'n ystyried anghenion rhyw-benodol menywod. Er ein bod wedi  gweld rhai esiamplau unigol da o adroddiadau cyn-dedfrydu a'r Adroddiadau Cyflym, fe welsom fod ymdrech annigonol yn cael ei gwneud i ddeall ac esbonio anghenion rhyw-benodol y menywod mewn dau achos o bob tri. Yn yr un modd, roedd argymhellion bod dedfrydwyr yn ystyried anghenion rhyw-benodol yn ddigon da mewn ychydig dros un achos o bob tri. Yn wir, fe welsom esiamplau o adroddiadau cyn-dedfrydu lle nad oedd yn bosib gwybod rhyw yr unigolyn.

Dywedodd dedfrydwyr wrthym, yn eu profiad hwy, nad oedd adroddiadau fel arfer yn benodol ar gyfer menywod ac nad oeddent yn gwahaniaethu rhwng anghenion menywod a dynion. Serch hynny, roedd dedfrydwyr yn teimlo, y rhan fwyaf o'r amser, eu bod yn gallu cael gwybodaeth ddigonol o'r adroddiadau cyn-dedfrydu i fod yn sail i benderfyniadau dedfrydu.

Mewn rhai ardaloedd, fe ddarganfuom fod hyd at 80% o'r adroddiadau i'r llys naill ai'n Adroddiadau Cyflym neu'n adroddiadau ar lafar, gan ennyn barn gymysg gan ddedfrydwyr. Mewn rhai ardaloedd, y rhain oedd yr hoff ddewis, oherwydd roedd dedfrydwyr yn teimlo eu bod yn sbarduno mwy o drafodaeth am yr achos. Roedd eraill yn teimlo y dylid darparu adroddiadau cyn-dedfrydu llawn, yn enwedig mewn achosion menywod mwy cymhleth.

Pa bynnag fformat o'r adroddiad oedd yn cael ei defnyddio, roeddem o'r farn ei fod yn bwysig bod materion allweddol yn cael eu hasesu'n llawn a'u cyflwyno mewn adroddiadau i'r llys: anghenion penodol, materion cydraddoldeb, risg o aildroseddu, risg o niwed a bregusrwydd menywod. Yn ein barn ni, roedd hyn yn hanfodol er mwyn bod yn sail i  ddedfrydu menywod yn effeithiol.

### Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu

Cyflwynwyd y Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu gan *Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 2014*. Roeddent yn disodli'r cyn Ofynion Goruchwyliaeth a Gweithgarwch ar gyfer pob dedfryd berthnasol ar gyfer troseddau a gyflawnwyd ar neu ar ôl 01 Chwefror 2015. Roedd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr gwasanaethau prawf i bennu'r ymyriadau adsefydlu a gyflwynir i droseddwyr. Rhaid i orchymyn perthnasol sy'n cyflwyno Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu nodi uchafswm nifer y diwrnodau y gellir cyfarwyddo i'r troseddwr gymryd rhan mewn gweithgareddau. Yn hanfodol, mae'r llys yn dedfrydu'r troseddwr i nifer benodol o ddiwrnodau Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu, ac yna mae'r gwasanaethau prawf yn pennu pa fath o weithgarwch y dylid ei wneud.

Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd yr ymwelom â hwy, roedd y broses o ddatblygu'r 'ddewislen' o ddarpariaeth Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu, ar gyfer dynion a menywod, yn dal ar y gweill

yn ystod cyfnod ein gwaith maes ar gyfer yr arolygiad rhwng Tachwedd 2015 ac Ionawr 2016. Er ei bod yn glir bod rhai amcanion da ar gyfer gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, roedd nifer o swyddogion cyfrifol a dedfrydwyr yn dal yn ansicr o ran pa ddarpariaeth oedd yn bodoli ar gyfer menywod yn eu cymunedau.

Mewn rhai ardaloedd, roedd y Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu yn cael eu cyflwyno o fewn y ganolfan fenywod, ac roedd hyn yn cael ei weld fel ymagwedd gadarnhaol gan ddedfrydwyr. Fodd bynnag, roedd dedfrydwyr yn gyffredinol yn teimlo bod ganddynt wybodaeth annigonol am argaeledd darpariaeth Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu yn y gymuned, ac mai ychydig iawn o'r gweithgareddau ar gyfer menywod oedd yn rhai penodol. Dywedodd un ynad: *"Y cwbl rydym yn ei wybod yw beth sy'n cael ei awgrymu i ni am ddiwrnodau Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu, er enghraifft, 20 mewn gorchymyn cymunedol. Dydw i'n bersonol ddim wedi  gweld un sy'n rhoi Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu sy'n benodol i fenywod."*

Fe welsom esiampl dda o weithgarwch Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu yn cael ei wneud o fewn lleoliad llety â chefnogaeth. Dywedodd un arolygydd: *"Roedd amrediad o ymyriadau penodol i fenywod ar gael yn y llety â chefnogaeth i fynd i'r afael ag anghenion menywod. Ymgymerwyd â rhaglen strwythuredig 12 sesiwn fel rhan o'i gweithgaredd Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu."*

Mynegodd nifer o ddedfrydwyr bryder am 'ddatgysylltiad' mewn cyfathrebu wrth ddedfrydu Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu. Fe wnaethpwyd yr argymhellion ar gyfer dedfrydu o fewn yr adroddiad cyn-dedfrydu gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol; yna fe ddedfrydodd y llys y troseddwr i rif penodol o ddiwrnodau Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu, ac roedd darpariaeth y gweithgarwch yna'n cael ei bennu gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol. Roedd diffyg cyfathrebu tair-ffordd, ac absenoldeb adborth am gynnydd a chanlyniadau menywod yn dilyn dedfrydu, yn bryder i ddedfrydwyr.

Tra bod dedfrydwyr yn derbyn bod y newidiadau yn dal i gael eu hymgorffori, roeddent yn disgwyl derbyn gwybodaeth well am ddarparu’r Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu. Roedd rhai yn teimlo bod llyfrynnau gweithgarwch a gynhyrchwyd yn ddiweddar, a gwybodaeth ar wefannau, yn rhy sylfaenol. Mae rhagor o sôn am Ofynion Gweithgarwch Adsefydlu ym Mhennod 4 (Ymyriadau a lleihau aildroseddu).

### Achosion o dorri gorchmynion

Fe welsom fod ymdrechion sylweddol fel arfer wedi cael eu gwneud i gefnogi menywod i gwblhau eu gorchmynion llys. Lle roedd apwyntiadau wedi cael eu colli, roedd swyddogion cyfrifol wedi ymateb yn briodol mewn dros 90% o'r achosion, er enghraifft, trwy gyhoeddi llythyr o rybudd neu eu cyfeirio yn ôl i'r llys. Un achos yn unig a welsom lle dylai camau gweithredu ynghylch torri gorchymyn fod wedi cael eu cymryd mewn ymateb i golli apwyntiad, ond nid oeddent wedi cael eu cymryd. Yn yr un modd, adroddodd ein harolygiad thematig yn 2011, lle bo angen, bod camau gweithredu ar dorri gorchmynion fel arfer yn cael eu cymryd yn effeithiol, gyda phenderfyniadau priodol yn cael eu gwneud yn y mwyafrif o achosion.

Dywedodd dedfrydwyr mewn rhai ardaloedd, fodd bynnag, fod achosion o dorri gorchmynion wedi lleihau i ddynion a menywod ers cyflwyno *Gweddnewid Adsefydlu*. Nid oeddent wedi derbyn llawer o wybodaeth am y rhesymau am hyn. Roedd y diffyg cyfathrebu yma gyda dedfrydwyr yn destun pryder, oherwydd roedd rhai yn pryderu y gallai newid anesboniadwy i nifer yr achosion o dorri gorchmynion danategu eu hyder mewn dedfrydau cymunedol. Yn ein hadroddiad *Gweddnewid Adsefydlu Gweithrediad Cynnar 5* (Mai 2016), a oedd yn canolbwyntio ar sampl achos fwy (311) o achosion dynion a menywod, gyda 50 ohonynt yn fenywod, darganfuwyd bod camau gweithredu ynghylch torri gorchmynion yn cael eu cymryd, lle roedd angen, yn y mwyafrif

o achosion. Yn ystod yr arolygiad hwnnw, dywedodd nifer o swyddogion cyfrifol y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol eu bod wedi cael eu cynghori i 'beidio â diddymu ac ail-ddedfrydu' oherwydd byddai'n arwain at gosb ariannol i'w Cwmni Adsefydlu Cymunedol.

### Cyfathrebu â dedfrydwyr

Roedd dedfrydwyr yn gadarnhaol am eu perthnasoedd gwaith gyda staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, yn enwedig y rheini a oedd wedi'u lleoli o fewn y llys a'r rheini a oedd â chyswllt rheolaidd â hwy.

Fel y nodwyd uchod, mynegwyd pryder am gyfathrebu mewn perthynas â darparu Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu a chamau gweithredu ar doriadau. Roedd dedfrydwyr hefyd yn teimlo bod ganddynt wybodaeth annigonol am ganlyniadau i fenywod, a'r cynnydd roeddent yn ei wneud yn dilyn eu gorchmynion llys. Fe ddywedon nhw y byddent yn croesawu diweddariadau rheolaidd o wybodaeth gyfanredol a data ar dueddiadau. Ymhlith yr awgrymiadau roedd cylchlythyron rheolaidd, cyfarfodydd ar y cyd neu sesiynau adborth anffurfiol.

Fe ddarganfuom yr esiamplau canlynol o arfer da mewn perthynas â chyfathrebu â dedfrydwyr a chydweithio rhwng asiantaethau:

### Pwyllgor Cyswllt Prawf: Camden

Roedd yr Ynad Rhanbarth a chwe ynad ynghyd ag uwch reolwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn mynychu Pwyllgor Cyswllt Prawf Camden. Roedd cylchlythyron bob deufis ar gyfer ynadon, gyda diweddariadau ar faterion yn ymwneud â'r gwasanaeth prawf. Roedd cysylltiadau da yn bodoli rhwng y tîm cyfreithiol a'r staff prawf. O fewn y llys, roedd desg gymorth gymunedol, gyda chlinig dyled, cyngor ar dai a chyfeirio at wasanaethau. Roedd sesiynau codi ymwybyddiaeth yn y bore ar fin cael eu cyflwyno, ac roedd hyn yn cael ei groesawu gan ddedfrydwyr.

### Cyfarfodydd cyswllt prawf: Wrecsam

Yn Wrecsam, roedd cyfarfodydd cyswllt prawf/ynadon yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn, gan drafod amrywiaeth o bynciau. Roedd gan ddedfrydwyr ddealltwriaeth glir iawn o broffil y menywod a oedd yn troseddu yn eu hardal a'r mathau o droseddau roeddent yn eu cyflawni. Roeddent yn teimlo bod gwybodaeth dda yn cael ei darparu am wasanaethau'r sector gwirfoddol a hefyd am wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Roedd gweithiwr iechyd meddwl yn bresennol pan roedd y llys yn eistedd, ac roedd dedfrydwyr yn gallu ymgynghori gyda staff prawf y llys ar ddyletswydd os oedd angen gwybodaeth benodol am achos.

### Cysylltiadau gyda gwasanaethau iechyd meddwl: Brighton a Bryste

Roedd cysylltiadau agos gyda thimau iechyd meddwl yn Brighton a Bryste. Yn Brighton, roedd gweithiwyr iechyd meddwl, ynghyd â swyddogion cyswllt cymunedol yr heddlu yn cwrdd â defnyddwyr gwasanaeth pan fo angen, naill ai yn nalfa'r heddlu neu yn y llysoedd ynadon. Ym Mryste, roedd dedfrydwyr yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth dda ac amserol gan y tîm iechyd meddwl. Roedd hyn yn rhoi'r hyder iddynt ystyried argymhellion ar gyfer dedfrydau cymunedol ar gyfer menywod gydag anghenion iechyd meddwl cymhleth.

### Cynlluniau gwyro a llysoedd datrys problemau

Fe welsom nifer o esiamplau o wyro o erlyniad a gwyro o gynlluniau'r llys, yn gweithredu yn yr ardaloedd yr ymwelom â hwy yn ystod cyfnod yr arolygiad hwn. Roedd dedfrydwyr, staff prawf a defnyddwyr gwasanaeth yn gadarnhaol am y cynlluniau hyn.

**Esiampl o arfer nodedig: Cynllun Braenaru i Fenywod y Rhyl**

Yn Llanelwy, roedd gweithiwr o'r ganolfan fenywod yn mynychu dalfa'r orsaf heddlu leol yn ddyddiol i 'frysbennu' pob menyw a gafodd ei harestio ac a oedd wedi cyfaddef i'w throsedd. Y nod oedd gwyro menywod i ffwrdd o'r system cyfiawnder troseddol ar adeg yr arestiad. Roedd y sawl a oedd yn cytuno i hyd at chwe sesiwn o gefnogaeth trwy'r ganolfan fenywod yn derbyn rhybudd amodol yn hytrach na mynd trwy'r llys.

Roedd yr achosion gwyro ac achosion eraill a gyfeiriwyd at y prosiect Braenaru i Fenywod hefyd yn destun cynadledda achos. Roedd hwn yn cael ei gynnull yn y ganolfan fenywod ac yn cael ei gadeirio gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol neu reolwr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gyda phrif gyfrifoldeb dros fenywod. Roedd amrywiaeth o bartneriaid statudol ac anstatudol yn mynychu ac yn helpu hwyluso mynediad at wasanaethau, er enghraifft, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a chefnogaeth i deuluoedd. Adnabuwyd asiantaeth arwain i gydlynu'r gefnogaeth a'r ymyriadau a gyflwynwyd.

Roedd y prosiect Braenaru i Fenywod yn casglu data i ddangos effeithiolrwydd y cynllun ac, er ei fod yn y camau cynnar o ddatblygiad (llai na thri mis), roedd yr esiamplau a nodwyd yn edrych yn addawol. Mae gwerthusiad ffurfiol o'r model sy'n cael ei gyflwyno ar draws nifer o safleoedd yng Nghymru yn cael ei gynnal gan Brifysgol De Cymru. Mae'n galonogol gweld datblygiad y math hwn o gynllun ers ein harolygiad yn 2011.

**Esiampl o arfer nodedig: Llys Datrys Problemau Salford**

Yn Salford, roedd menywod mewn perygl o ddedfryd yn y ddalfa neu ag anghenion cymhleth, yn mynychu cyfarfod cynllunio yn y ganolfan fenywod, wedi'i gynnal gan Brosiect Menywod Ynghyd. Roedd y cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan awdur yr adroddiad cyn-dedfrydu ac roedd mudiadau cefnogaeth lleol yn eu mynychu. Roedd hefyd gan y ganolfan feithrinfa i hwyluso ymglymiad menywod gyda phlant ifanc. Ar ddiwedd y cyfarfod, byddai'r swyddog prawf yn drafftio cynllun ymyrraeth, gan gynnwys asiantaethau eraill yn aml. Yna roedd hwn yn cael ei gyflwyno i'r llys yn yr adroddiad cyn-dedfrydu. Os oedd y fenyw yn derbyn y gorchymyn cymunedol a gynigiwyd, roedd yr achosion yn cael eu hadolygu bob pedair wythnos, er mwyn monitro cynnydd y fenyw ac adolygu'r cynllun dedfrydu.

## 4. Lleihau aildroseddu

Fe adolygom asesiadau, cynlluniau, ymyraethau a'r canlyniadau ar gyfer menywod o fewn sampl ein hachos. Roeddem yn disgwyl gweld bod digon o ymdrech yn cael ei gwneud i ddeall a mynd i'r afael ag anghenion rhyw-benodol yr achos. Aseswyd effaith y gwaith i leihau aildroseddu, a gwrandawyd ar farn menywod am waith y gwasanaethau prawf i leihau aildroseddu.

### Canfyddiadau allweddol:

Fe ddarganfuom fod math ac ansawdd y gwaith i leihau aildroseddu yn amrywio'n fawr, ac roedd anghysondeb yn yr ymagwedd at adnabod a mynd i'r afael ag anghenion rhyw-benodol menywod a oedd wedi troseddu.

Roedd rhai esiamplau unigol ardderchog o waith yn cael ei wneud gyda menywod. Weithiau roedd swyddogion cyfrifol a staff y canolfannau menywod yn cael eu disgrifio gan fenywod fel: *"mynd y tu hwnt i'r galw"* i'w cefnogi nhw i stopio troseddu a symud ymlaen gyda'u bywydau.

Mewn perthynas â gofynion rhyw-benodol y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr y soniwyd amdanynt yn y cyflwyniad, fe ddarganfuom fod y rhan fwyaf o fenywod yn cael cynnig y cyfle i gael swyddog cyfrifol benywaidd. Hwn yn aml oedd y sefyllfa ddiofyn.

Nid oedd pob menyw, fodd bynnag, yn cael cynnig y cyfle i adrodd neu fynychu apwyntiadau neu ymgymryd â rhaglenni gwaith mewn awyrgylch menywod yn unig. Mewn rhai ardaloedd, roedd menywod yn adrodd yn uniongyrchol i ganolfan fenywod, neu i swyddfa brawf yn ystod cyfnodau amser i fenywod yn unig. Mewn ardaloedd eraill, roedd menywod yn adrodd i swyddfa brawf ar yr un pryd â dynion. Yn un o'r achosion a arolygwyd gennym, gofynnwyd i fenyw fynychu'r swyddfa brawf yn ystod y cyfnod adrodd o un awr ar gyfer menywod yn unig. Nid oedd hyn yn cyd-fynd â'r dyletswyddau gofal plant ac roedd yn dangos cyfyngiadau'r ymagwedd hon.

### Asesiad

Roedd yr asesiad o'r risgiau a oedd yn gysylltiedig ag aildroseddu yn cael ei wneud yn ddigonol yn y mwyafrif helaeth o achosion yn y sampl. Roedd swyddogion cyfrifol wedi rhoi sylw da i ffactorau megis llety, rheolaeth ariannol, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol ac ymagweddau at droseddu. Roedd hyn yn cymharu'n ffafriol â'n hadolygiad yn 2011. Fe ddarganfuom, fodd bynnag, bod asesiadau'n adnabod ffactorau rhyw-benodol sy'n gysylltiedig ag ymddygiad tramgwyddus yn gywir mewn ychydig dros hanner o'r achosion a arolygwyd. Golygai hynny, tra bod asesiadau gan fwyaf yn cael eu gwneud yn dda o ran y ffactorau a oedd yn gwneud rhywun yn fwy tueddol o droseddu, nid oeddent o reidrwydd yn ystyried ffactorau penodol yn ymwneud â'r troseddwr fel menyw.

### Cynllunio

Fe welsom fod llai na hanner y cynlluniau dedfrydu'n mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion rhyw-benodol a'r ffactorau eraill sy'n gysylltiedig â throseddu. Nid oedd pob cynllun yn adeiladu ar ffactorau amddiffynnol hysbys (megis perthnasoedd teuluol, cyflogaeth neu lety sefydlog) i fynd i'r afael ag ymddygiad tramgwyddus menywod.

### Ymyriadau a lleihau aildroseddu

O fewn ein sampl, roedd y galw mwyaf am ymyriadau ym meysydd llety, meddwl ac ymddygiad, perthnasoedd, ffordd o fyw a chyfranogion, lles emosiynol, agweddau at droseddu a chamddefnyddio sylweddau.

Fe welsom ymyriadau addas i fynd i'r afael ag ymddygiad tramgwyddus mewn dau achos o bob tri. Fe ddarganfuom, fodd bynnag, nad oedd ffactorau rhyw-benodol, er enghraifft gofynion gofal plant, wedi cael eu hystyried o gwbl mewn un achos o bob tri.

Fe ystyriom, yn benodol, bod angen i wasanaethau prawf wneud mwy i gefnogi menywod i fynd i'r afael â'u hymagweddau at droseddu, meddwl ac ymddygiad, a'u ffordd o fyw a chyfranogion. Mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau ym Mhennod 3 ar ddedfrydu, lle gwelsom nad oedd darpariaeth Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu wedi ei datblygu'n ddigonol a bod y ddealltwriaeth ohono yn wael.

Roedd tua hanner y 72 menyw y gwanethom arolygu eu hachosion wedi cael eu cyfeirio at ganolfan fenywod; roedd hyn yn welliant ar y gyfradd cyfeirio ers ein harolygiad yn 2011. Fodd bynnag, nid oedd dwy o bob tair menyw yn mynychu, ac mae hyn yn destun pryder. Ymhlith y rhesymau a roddwyd am beidio â mynychu roedd pellter o'r cartref, gwrthod ymrwymo gyda goruchwyliaeth a diwrnodau neu amserau agor anghyfleus, er enghraifft, pan yn mynychu cwrs yn y coleg. I eraill, roedd yn ymwneud â sefydlogrwydd y rhaglenni a oedd yn cael eu cynnig. Dywedodd un fenyw: *"Cefais gynnig ond dydw i ddim yn dda iawn mewn grwpiau felly byddai'n llawer gwell gennyf eu gwneud ar fy mhen fy hun".*

Roedd ychydig dros dri chwarter y menywod yn ein sampl heb gael collfarn neu rybudd am drosedd a gyflawnwyd ers cychwyn eu dedfryd gymunedol neu eu rhyddhau ar drwydded. O'r 17 menyw a oedd wedi aildroseddu, roedd difrifoldeb ac amlder eu troseddu profedig wedi aros yr un fact gan fwyaf.

Roedd effaith a gwaith a wnaethpwyd gyda menywod i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu yn gymysg. Roedd mwyafrif yr effaith wedi bod mewn perthynas â lles emosiynol (gan gynnwys iechyd meddwl a materion ymddygiadol), lle gwelsom fod menywod wedi gwneud cynnydd cadarnhaol mewn dau o bob tri achos perthnasol. Roedd gwasanaethau prawf wedi cyfrannu'n briodol at y canlyniad hwn i fenywod, er enghraifft, trwy wneud cyfeiriadau at asiantaethau arbenigol. Roedd y cynnydd yma yn addawol, oherwydd yn ein hadroddiad yn 2011, roeddem yn siomedig i ddarganfod, yn ein barn ni, bod y gwasanaethau iechyd meddwl a ddarparwyd i'r menywod yn ein sampl yn annigonol mewn dros hanner yr achosion unigol a arolygwyd (53%).

O ran llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, rheoli arian, perthnasoedd (gan gynnwys cam-drin domestig), a chamddefnyddio sylweddau, roedd tua hanner y menywod wedi gwneud cynnydd, tra bod yr hanner arall heb. Yn arwyddocaol gyda'r canfyddiadau hynny oedd bod y sefyllfa o ran llety wedi gwaethygu ar gyfer 13 menyw yn ystod cyfnod eu dedfryd. Roedd y bwlch mwyaf yn argaeledd yr ymyriadau addas ar gyfer menywod mewn perthynas â llety. Roedd hyn yn bryder o ystyried bod problemau gyda llety yn gallu bod yn rhwystr sylweddol at gynnydd mewn rhannau eraill o fywydau menywod.

### Beth ddywedodd menywod am wasanaethau prawf a gwaith i leihau aildroseddu

Fe gomisiynom User Voice, elusen dan arweiniad cyn-droseddwyr, i gynnal y cyfweliadau â'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n fenywod (gyda'u caniatâd gwybodus) ar ein rhan.

Yn ystod cyfnod y gwaith maes, fe gyfwelodd User Voice â 28 menyw a oedd yn cael eu goruchwylio gan wasanaethau prawf.

Roedd mwyafrif y menywod y cyfwelwyd â hwy yn teimlo bod eu hymwneud â'r gwasanaethau prawf wedi helpu i leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu.

*"Rwy'n teimlo fel fy mod yn cael fy nghefnogi nawr, rwy'n teimlo fel bod rhywun yn gwrando arnaf. Pethau sy'n mynd o'i le nawr, mae gennyf fy swyddog prawf yno i fi helpu i'w datrys."*

*"Mae prawf wedi fy helpu i sylweddoli fy mod yn gallu cael cymaint mwy allan o fywyd. Rydw i jyst eisiau cadw fy mhen i lawn, cwblhau tasgau a symud ymlaen."*

Dywedodd pob un o'r menywod y cyfwelwyd â hwy bod cael perthynas gadarnhaol, dda gyda'u swyddog cyfrifol yn bwysig iddynt. Roedd hefyd yn bwysig eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn deall, ac fe gadarnhaodd mwyafrif y menywod mai dyma sut roeddent yn teimlo.

*"Mae fy mherthynas yn dda iawn, roeddwn yn ei hadnabod hi cyn i mi gael fy anfon i'r carchar felly roeddwn yn gallu adeiladu perthynas dda gyda hi, rwy'n ymddiried ynddi ac mae hi wedi fy helpu gyda fy mhroblemau gydag alcohol, dydw i ddim yn gwybod beth faswn i'n gwneud hebddi."*

*"Roeddwn yn ffodus iawn, cefais ddau swyddog cyfrifol gwych a ddaeth (i'r ganolfan fenywod) i fy ngweld. Roedden nhw mor gefnogol, roeddwn i wir yn teimlo eu bod yn ystyried fy anghenion".*

Dywedodd dwy fenyw, fodd bynnag, nad oedd eu swyddogion cyfrifol wedi cynnig unrhyw gymorth i'w helpu i leihau eu risg o aildroseddu.

*"Rwy'n credu fy mod yn gallu cadw'n glir o aildroseddu ond mae fy swyddog prawf yn fy nhrin fel troseddwr ac yn cymryd (yn ganiataol) y byddaf yn aildroseddu eto. Fe wnes i droseddu ond roedd amgylchiadau iechyd meddwl ac fe ddywedon nhw wrthyf fod rhaid i mi ymrwymo â gwasanaethau iechyd meddwl, rwy'n teimlo fel fy mod yn cael fy labelu."*

*"Ddim eisiau fy helpu o gwbl, y cwbl roedd hi eisiau gwneud oedd ticio blychau, dim diddordeb mewn beth oedd ei angen, baswn i'n cyrraedd, llenwi ffurflen, basai hi'n dweud dim, yna roeddwn i'n gadael. Roeddwn i mor isel; roeddwn i'n ei gasáu i'r pwynt doeddwn i ddim eisiau dod."*

Yn gyffredinol, roeddem yn teimlo bod hyn yn cynrychioli gwelliant mewn perthnasoedd ers ein harolygiad yn 2011. Ar yr adeg honno, roedd braidd dim menywod yn siarad yn gadarnhaol am eu swyddog cyfrifol, ac roedd yn ymddangos bod y berthynas rhwng nifer o fenywod a'u swyddog cyfrifol yn weddol arwynebol.

### Gwaith di-dâl

Ers Chwefror 2015, mae gwaith di-dâl wedi cael ei gyflwyno gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol ochr yn ochr â gofynion eraill y ddedfryd. Yn ogystal â chyflwyno cosb, mae gwaith di-dâl yn darparu cyfle i ddarparwyr gwasanaethau prawf ymrwymo yn gadarnhaol dros gyfnod o amser gyda'r sawl sydd wedi troseddu.

Ym mis Ionawr 2016, fe gyhoeddom ein harolygiad thematig ar gyflwyniad gwaith di-dâl[17]. Yn ystod cyfnod yr arolygiad, fe ddarganfuom, yn gyffredinol, bod menywod yn ymddangos yn fodlon gyda'u lleoliad, ond gyda nifer fechan o fenywod yn y sampl (12), nid oedd dadansoddiad meintiol manwl o'r canfyddiadau fesul rhyw yn bosib. Yn hytrach, ein nod oedd rhoi darlun cyffredinol o weithrediad gwaith di-dâl. Roedd deg o'r menywod yn y sampl honno ar leoliadau mewn siop gyda dwy ar leoliadau grŵp.

Yn ystod cyfnod yr arolygiad thematig hwn, fe welsom ddeg achos lle roedd menywod wedi cael eu dedfrydu i waith di-dâl fel rhan o'u gorchymyn. Mewn un ardal, nid oedd dedfrydwyr yn gallu cofio unrhyw ofynion am waith di-dâl yn cael eu gwneud ar gyfer menywod.

[17] *Arolygiad Thematig o Gyflwyniad Gwaith Di-dâl:* Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2016)

O'r menywod hynny a oedd yn cael eu dedfrydu i waith di-dâl, roedd mwyafrif y gwaith yn cael ei wneud ar leoliadau unigol, fel arfer mewn siopau elusennol. Fe welsom rai esiamplau da o anghenion menywod yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth gwblhau eu horiau o waith di-dâl. Er enghraifft, mewn achos lle roedd gan y fenyw swydd yn cynnwys amrywiaeth o batrymau sifft, fe sicrhaodd y swyddog cyfrifol bod yr amser roedd eu horiau gwaith di-dâl yn cael eu cwblhau yn hyblyg a bod modd eu hamrywio yn ôl yr angen.

Fe welsom un achos lle cafodd menyw ei gosod o fewn grŵp cymysg i gwblhau eu horiau gwaith di-dâl. Roedd lleoliad o'r fath yn dderbyniol oherwydd roedd menywod eraill yn y grŵp cymysg hefyd.

Yn galonogol, ni welsom unrhyw achosion lle roedd menyw wedi cael ei gosod fel yr unig fenyw mewn grŵp cymysg.

Yn Brighton a Salford, fe welsom esiamplau addawol o fenywod yn cwblhau eu horiau gwaith di-dâl o fewn canolfannau menywod, neu'n gweithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda gweithgareddau cymunedol. Roedd y menywod a oedd yn cymryd rhan yn gwneud cynnydd da.

**Astudiaeth Achos Gwaith di-dâl - Prosiect Cymunedol i Fenywod, Scarborough**

Cafodd Maria ei barnu'n euog o dwyll budd-daliadau a'i dedfrydu i orchymyn cymunedol 12 mis, gan gynnwys oriau o waith di-dâl. Cafodd ei chyfeirio at y Prosiect Cymunedol i Fenywod, gan ei swyddog cyfrifol. Roedd gan Maria dri phlentyn ifanc gan gynnwys babi newydd, ac roedd yn pryderu wrth feddwl am adael ei babi. Roedd felly'n anodd iddi fynychu grŵp gwaith di-dâl, ac nid oedd hi'n addas ar gyfer lleoliad mewn siop elusennol, oherwydd natur ei throsedd. Roedd y Prosiect Cymunedol i Fenywod, fodd bynnag, yn gallu cynnig lleoliad gwaith di-dâl i Maria a darparu cyfleusterau meithrinfa ar y safle ar gyfer ei babi. Roedd y Prosiect Cymunedol i Fenywod yn cynnig oriau hyblyg i ffitio o amgylch y plant, ac roedd Maria yn gallu cwblhau ei horiau dros dri diwrnod yr wythnos.

Yn dilyn asesiad, adnabuwyd bod gan Maria sgiliau i'w cynnig ac roedd wedi ei hysgogi i wneud yn iawn am ei throsedd. Cafodd gynnig y cyfle i ddatblygu menter newydd yn y Prosiect Cymunedol i Fenywod, mewn siop fewnol yn gwerthu eitemau wedi'u rhoddi i fenywod eraill. Cymerodd Maria y cyfle, ac roedd y siop mor llwyddiannus, fe ddatblygodd y Prosiect y fenter i mewn i siop yng nghanol y dref i godi arian i gynnal y prosiect. Roedd Maria hefyd yn mynychu cwrs astudio achrededig ar sefydlu busnes. Fe wellodd hunanhyder Maria, ac fe ddatblygodd hi sgiliau newydd mewn menter wrth gwblhau ei gwaith di-dâl.

# 5. Amddiffyn y cyhoedd a rheoli peryglon

## Sylwadau agoriadol:

Fe edrychom ar asesiadau, cynlluniau, ymyriadau a chanlyniadau ar gyfer menywod o fewn sampl ein hachos, i weld sut roedd ystyriaeth yn cael ei roi i reoli'r risg o niwed a berir i'r cyhoedd, dioddefwyr hysbys neu bosib, plant a staff. Hefyd fe wnaethom asesu a oedd y gwaith yn canolbwyntio digon ar reoli a lleihau bregusrwydd menywod a oedd wedi troseddu.

## Canfyddiadau allweddol:

### Rheoli'r risg o niwed i eraill

Roedd mwyafrif helaeth y menywod yn yr achosion a arolygwyd gennym wedi'u hasesu fel rhai oedd yn peri naill ai risg canolig neu isel o niwed i'r cyhoedd. Roedd wyth achos o risg uchel o niwed yn y sampl, a dim achosion o risg uchel iawn. Fe ddarganfuom, mewn perthynas â menywod a oedd yn peri risg uchel o niwed i'r cyhoedd, roedd lefel y risg wedi cael ei adnabod yn gywir gan y swyddog cyfrifol trwy gydol cyfnod y goruchwylio ym mhob achos. Roedd y risg o niwed hefyd wedi cael ei adnabod yn gywir yn y rhan fwyaf o achosion lle roedd menywod yn peri risg canolig neu isel o niwed i'r cyhoedd.

Roedd 13 achos yn y sampl a oedd yn destun Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd, ac fe ddarganfuom fod pob un o'r rhain yn cael eu rheoli ar y lefel gywir.

Roedd yr asesiad o risg y menywod o beri niwed i eraill yn cael ei wneud yn ddigonol ym mron pob achos; roedd hyn yn gryfder ac mae'n cymharu ffafriol â'n hadolygiad yn 2011, lle darganfuom mai 28% yn unig o asesiadau risg o niwed oedd yn cael eu gwneud yn ddigonol.

O ran cynllunio i reoli a lleihau'r risg o niwed a berir gan fenywod i'r cyhoedd, dioddefwyr a staff, fe welsom gynlluniau a oedd yn ddigon da mewn dau o bob tri achos. Roedd cynlluniau i amddiffyn plant mewn risg o niwed yn well; o'r 36 achos perthnasol yn y sampl, roedd 3 o bob 4 o'r cynlluniau hynny yn cael eu gwneud yn ddigon da. Roedd yr agweddau cryfach o gynllunio mewn perthynas â risg o niwed i eraill yn ymwneud â rheoli materion iechyd meddwl, hunanhyder isel, a chael plant mewn gofal neu anghenion rhieni/gofalwyr eraill.

O ran ymyriadau, fe welsom fod y gwaith a gyflwynwyd yn canolbwyntio'n ddigon da ar amddiffyn y sawl mewn risg o niwed gan fenywod mewn tri chwarter o'r achosion perthnasol, a bod swyddogion cyfrifol yn ymateb yn briodol i amgylchiadau newidiol, gan wneud addasiadau addas pan oedd angen.

Yn y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd gennym, doedd dim tystiolaeth o niwed difrifol yn cael ei achosi i eraill gan y menywod ers eu dedfryd neu eu rhyddhau ar drwydded. Lle roedd risg rhagweladwy a gocheladwy o niwed difrifol i eraill, fe ddarganfuom, yn y mwyafrif o achosion, fod gwasanaethau prawf a'u partneriaid wedi cymryd pob cam rhesymol i amddiffyn y cyhoedd.

### Rheoli bregusrwydd menywod

Yn gyffredinol, fe welsom fod gwaith mewn perthynas â rheoli bregusrwydd menywod a oedd wedi troseddu yn annigonol. Ymhlith y meysydd o wendid roedd cynllunio i fynd i'r afael â cham-drin domestig, ecsploetiaeth rywiol a mathau eraill o ecsploetiaeth, megis cael gafael ar gyffuriau neu alcohol ar gyfer eraill. Roedd cynllunio i fynd i'r afael â'r meysydd hyn yn cael ei wneud yn ddigon da mewn llai na hanner yr achosion perthnasol.

Dywedodd un arolygydd: *"Nid oedd unrhyw un wir wedi adnabod, neu weithredu ar, ei bregusrwydd. Roedd hwn yn achos a oedd yn galw allan am gyfraniad gan ganolfan i fenywod".*

Roedd cynllunio i reoli a lleihau bregusrwydd ychydig yn well ym meysydd mynd i'r afael â materion iechyd meddwl, hunanhyder isel a chael plant mewn gofal neu anghenion rhieni/gofalwyr eraill. Yn y meysydd hyn, fe welsom fod y cynllunio yn ddigonol mewn dau o bob tri achos perthnasol.

Roedd y gwaith a gyflwynwyd yn canolbwyntio'n ddigonol ar reoli a lleihau bregusrwydd menywod mewn tri o bob pedwar achos yn y sampl. Fe welsom fod swyddogion cyfrifol yn ymateb yn briodol i amgylchiadau newidiol, gan wneud addasiadau addas pan oedd angen.

Dywedodd un arolygydd: *"Er bod dim asesu na chynllunio wedi cael ei wneud, fe wnaeth gwaith y swyddog cyfrifol adnabod ei bregusrwydd posib o ran ei chyn ŵr, er enghraifft, trwy archwilio gyda hi sut i gyfathrebu ag ef o ran cyswllt â'r plentyn heb orfod cwrdd yn uniongyrchol."*

Fe welsom fod bregusrwydd menywod wedi lleihau mewn un o bob tri achos perthnasol, ers cychwyn eu dedfryd neu eu rhyddhau ar drwydded. Un esiampl oedd menyw a oedd bellach wedi cael llety gwell, i ffwrdd oddi wrth yr yfwyr ar y stryd a'r delwyr cyffuriau roedd hi'n eu hadnabod, ac roedd hi'n cydymffurfio'n dda gyda gofynion ei dedfryd. Ar gyfer un o bob tair o'r menywod a arolygwyd gennym, fodd bynnag, fe ddarganfuom fod eu bregusrwydd wedi cynyddu. Un esiampl oedd menyw a oedd wedi hunan-niweidio er mwyn iddi gael ei dychwelyd i'r ysbyty.

Roeddem yn ystyried fod pob cam rhesymol wedi cael eu cymryd gan y gwasanaethau prawf ac eraill i reoli a lleihau bregusrwydd menywod mewn dau o bob tri achos perthnasol a arolygwyd gennym. Ar gyfer yr achosion eraill, roedd angen i'r gwaith wella.

### Defnydd o Safleoedd Cymeradwy

Mae Safleoedd Cymeradwy yn cynnig darpariaeth breswyl er mwyn darparu gwell lefelau o amddiffyniad i'r cyhoedd a lleihau'r tebygolrwydd o ragor o droseddu.  Mae chwe safle cymeradwy i fenywod yn Lloegr, sy'n darparu cyfanswm o 112 lleoliad. Mae tri yn cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac mae tri yn cael eu rheoli'n annibynnol gan fudiadau eraill. Does dim safleoedd cymeradwy yng Nghymru.

Roedd lleoliadau daearyddol y chwe safle cymeradwy cyfredol (Lerpwl, Bedford, Birmingham, Preston, Reading a Leeds) yn golygu nad oedd gan bob ardal yr ymwelom â hwy fynediad agos atynt. O'r achosion a arolygwyd gennym, ni welsom lawer lle roedd menywod wedi cael eu cyfeirio at safle cymeradwy.

Roedd gan y nifer fechan o safleoedd cymeradwy i fenywod oblygiadau a heriau ar gyfer adleoli effeithiol. Mae menywod yn fwy tebygol o gael eu gosod yn bellach i ffwrdd o'u hardaloedd cartref na dynion, ac mae'r sawl gyda chyfrifoldebau gofalu yn debygol o gael trafferth i gynnal cysylltiadau gyda'u plant a'u cysylltiadau teuluol.

Er i ni beidio ag arolygu safleoedd cymeradwy fel rhan o'r arolygiad hwn, fe welsom esiampl o waith a chynnydd da a wnaed gan fenyw o fewn ein sampl a oedd wedi cael ei chyfeirio at safle cymeradwy.

**Astudiaeth Achos: Safle Cymeradwy**

Roedd Sheila yn 45 mlwydd oed gyda dros 20 o gollfarnau blaenorol. Cafodd ei rhyddhau ar drwydded am drosedd o ddwyn a chafodd lety mewn safle cymeradwy. Roedd yr achos yn cynnwys pryderon amddiffyn plant ac roedd hi'n arddangos risg uchel o niwed difrifol i'r cyhoedd ac oedolion hysbys, gyda risgiau ychwanegol i staff. Yn ystod y pum mis yn y safle cymeradwy, cafodd Sheila ei chefnogi trwy amrediad o raglenni a oedd yn mynd i'r afael â pherthnasoedd, lles emosiynol, camddefnyddio alcohol a'r elfennau ymarferol o ddod yn sefydlog yn y gymuned. Trwy gydol y cyfnod preswyl, roedd y swyddog cyfrifol mewn cysylltiad agos â Sheila a staff y safle cymeradwy ac yn gweithio'n adeiladol trwy MAPPA i sicrhau llety annibynnol a rheoli'r amrediad o risgiau yn yr achos. Fe wnaeth Sheila gynnydd da wrth sefydlogi ei chamddefnydd o sylweddau a'i hiechyd meddwl. Roedd hi'n dangos mwy o allu i reoli ei hun, datblygu barn fwy cadarnhaol ohoni ei hun ac eraill ac yn cymryd camau tuag at fyw'n annibynnol. Roedd lefel ei risg wedi gostwng, ac nid oedd hi wedi aildroseddu ar adeg ein harolygiad.

## 6. Cydymffurfio â dedfryd y llys neu'r drwydded

### Sylwadau agoriadol:

Fe edrychom i weld a oedd menywod wedi cydymffurfio â'u dedfryd neu drwydded, a'u bod yn mynychu apwyntiadau a rhaglenni gwaith yn ôl y gofyn. Roeddem yn disgwyl i ystyriaeth gael ei rhoi i anghenion amrywiaeth unigol, gan adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau at ymrwymiad. Fe edrychom hefyd ar y gefnogaeth a roddir i fenywod i'w galluogi i ymrwymo, ac i weld a oedd ymatebion i absenoldebau neu fethiannau i fynychu yn addas yn yr amgylchiadau.

### Canfyddiadau allweddol:

Roedd absenoldebau yn y menywod yn mynychu'u hapwyntiadau gofynnol mewn wyth o bob deg achos yn y sampl. Lle roedd absenoldebau, fodd bynnag, fe welsom fod yr ymatebion iddynt yn addas ym mron pob achos. Yn aml roedd hyn yn cynnwys llawer o ymdrech a dyfalbarhad gan y swyddogion cyfrifol, gan gefnogi menywod i ymrwymo a mynychu'u hapwyntiadau a rhaglenni gwaith. Fe welsom dystiolaeth o swyddogion cyfrifol yn addasu amser apwyntiadau, yn gwneud trefniadau hyblyg i hwyluso anghenion gofal plant neu batrymau gwaith sifft y menywod. Fe welsom fod swyddogion cyfrifol yn gweithio'n dda i oresgyn unrhyw rwystrau at ymrwymiad gyda menywod ac yn cymryd eu hanghenion amrywiaeth unigol i ystyriaeth.

Dywedodd y menywod a gyfwelwyd gan User Voice fod y swyddogion cyfrifol yn hyblyg ac yn gymwynasgar mewn perthynas ag amgylchiadau menywod, er mwyn sicrhau eu bod yn cwblhau eu gorchmynion.

Dywedodd un fenyw: *"Mae fy swyddog prawf yn wych; mae hi mor gefnogol. Rwy'n gwybod ei bod hi'n gwrando arnaf ac y bydd hi bob tro'n gwneud ei gorau drosof. Os nad ydw i'n gallu dod i fy apwyntiad, y cwbl sy'n rhaid i mi wneud yw ei ffonio hi er mwyn ail-drefnu."*

Nid oedd pob menyw yn cael cynnig y cyfle i adrodd, cael apwyntiadau neu ymgymryd â'r rhaglenni gwaith mewn awyrgylch menywod yn unig, fodd bynnag, a gallai hyn fod wedi bod yn rhwystr at ymrwymiad ar gyfer rhai menywod.

Dywedodd un fenyw: *"Mae dod yma* [y ganolfan fenywod] *gymaint yn well na mynd i'r swyddfa brawf, mae'n llai brawychus."*

Lle roedd angen, roedd camau gweithredu angenrheidiol, gan gynnwys llythyron o rybudd a dychwelyd menywod i'r llys, wedi cael eu cymryd ym mron pob un o'r achosion a arolygwyd gennym. Un achos yn unig a welsom lle roeddem yn teimlo y dylid bod wedi cymryd camau gweithredu oherwydd torri gorchymyn; roedd hyn oherwydd bod y fenyw wedi colli gormod o'i hapwyntiadau gofynnol.

## 7. Canolfannau menywod

### Sylwadau agoriadol:

Fe drefnom ymweliadau ffurfiol â chanolfannau menywod yn y safleoedd arolygu canlynol:

- Brighton – Inspire Women's Centre a Brighton Oasis Project (gwasanaeth camddefnyddio sylweddau i fenywod, a gwasanaeth cynghori ar gyfer menywod yn y diwydiant rhyw)
- Bryste – Eden House
- Llundain – The Minerva Project, Hammersmith
- Canolfan Fenywod y Rhyl
- Salford – Together Women Project
- Scarborough – The Women's Community Project.

Fe edrychom ar amryw fodelau gweithredu ac ymagweddau at ymrwymo a gweithio gyda menywod a oedd yn cael eu goruchwylio gan wasanaethau prawf. Fe ystyriom sut roedd canlyniadau i fenywod yn cael eu profi, a bu i ni wrando ar farn menywod.

### Canfyddiadau allweddol:

Fe welsom waith ardderchog ac ysbrydoledig yn cael ei wneud mewn canolfannau menywod. Roedd y gwasanaethau yn rhyw-benodol ac yn sensitif i anghenion ac amrywiaeth menywod. Lle roedd hyn yn gweithio orau, roedd gan fenywod fynediad at amrediad o wasanaethau arbenigol trwy ymagwedd 'siop un stop'. Roedd ymyriadau wedi'u hanelu at fynd i'r afael ag anghenion cyffredinol menywod, yn hytrach na'r ymddygiad tramgwyddus yn unig, ac roedd asiantaethau partner yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cynlluniau a chefnogaeth unigol i fenywod.

Doedd dim un model o gyfeirio, ond amrediad eang o ymagweddau at ymrwymo a gweithio gyda menywod yn y canolfannau. Roedd y rhain yn amrywio o fodel lle roedd pob menyw a oedd wedi troseddu yn cael ei chyfeirio'n awtomatig at y ganolfan fenywod yn uniongyrchol o'r llys, ac yn gwneud ei hadrodd, asesu ac ymyriadau i gyd yno, at fodelau lle roedd cyfeirio menyw at y ganolfan yn ôl disgresiwn y swyddog cyfrifol.

Mewn rhai ardaloedd roedd y canolfannau menywod yn gweithredu fel canolfannau cymunedol, ar agor i bob menyw, gyda sesiynau galw heibio rheolaidd, clybiau cinio a sesiynau gweithgaredd, yn ogystal â rhaglenni penodol i fynd i'r afael ag ymddygiad tramgwyddus fel rhan o orchymyn y llys. Mewn eraill, roedd presenoldeb gan fenywod a oedd wedi troseddu trwy apwyntiad yn unig fel rhan o'u gorchymyn llys statudol. Roedd ffocws gwahanol rhwng ardaloedd lle roedd 'gwasanaeth safonol' yn cael ei gynnig gan wasanaethau prawf i fenywod ar orchmynion llys, gyda chyfeiriad at ganolfan fenywod yn cael ei hystyried fel 'elfen ychwanegol', i'r ardaloedd hynny lle mai'r ganolfan fenywod *oedd* yr ymyrraeth.

Roedd rhai o'r canolfannau menywod ar agor bum niwrnod yr wythnos, eraill unwaith yr wythnos neu unwaith y pythefnos. Roedd y model gweithredu yn cael ei bennu gan amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys cyd-destun hanesyddol, blaenoriaethau strategol, yr adnoddau sydd ar gael a'r galw am wasanaethau.

Fe welsom dystiolaeth o gasglu data ac adrodd ar y cynnydd a wnaed gan fenywod mewn rhai canolfannau, a'r defnydd o systemau i fenywod hunan-asesu eu cynnydd. Roedd monitro cynnydd, fodd bynnag, yn anghyson ac roedd angen iddo fod yn fwy cadarn, er mwyn dangos effeithiolrwydd y gwaith.

Mewn nifer o'r canolfannau menywod yr ymwelom â hwy, roedd menywod yn parhau i ymweld â'r canolfannau yn wirfoddol wedi i'r gorchmynion llys ddod i ben, ac roedd nifer o fenywod yn gwerthfawrogi'r parhad hwn yn y gefnogaeth. Roedd rhai ohonynt yn hyfforddi i weithio gyda a chynorthwyo menywod eraill, er enghraifft, fel mentoriaid i gyfoedion, weithiau gydag achrediad, gan ennill sgiliau a chymwysterau i'w cynorthwyo yn y dyfodol.

**Esiampl o arfer nodedig: Prosiect Menywod Ynghyd Salford**

Roedd Prosiect Menywod Ynghyd Salford yn darparu siop un stop rhyw-benodol ar gyfer menywod a oedd wedi troseddu. Roedd Prosiect Menywod Ynghyd yn gweithio gyda menywod mewn modd holistaidd gan gynnig gwasanaeth wedi'i deilwra ar gyfer eu hanghenion unigol. Roedd gweithiwr allweddol yn cael ei dyrannu i bob menyw, ac roedd asesiad yn cael ei gwblhau gyda'r fenyw, ac yna, gyda'i gilydd roeddent yn cytuno ar becyn o gefnogaeth yn canolbwyntio ar feysydd o angen a sut roedd y prosiect yn gallu helpu i wneud newidiadau cadarnhaol. Roedd y menywod yn cael adolygiadau rheolaidd gyda'u gweithwyr allweddol i olrhain cynnydd a wnaed a phenderfynu ar unrhyw gefnogaeth ychwanegol roedd ei hangen. Roedd y ganolfan ar agor yn ddyddiol i fenywod o ddydd Llun i ddydd Gwener am sesiynau galw heibio. Roedd y menywod yn gallu cael mynediad at y cyfleusterau yn y ganolfan, megis defnyddio'r rhyngrwyd; roeddent hefyd yn cwrdd â chyfoedion a gweithwyr allweddol.

Roedd amrediad o gyrsiau yn cael eu rhedeg yn y prosiect, gan gynnwys, hyfforddiant ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, cwrs adeiladu hyder a hunanhyder, a chwrs am ymddygiad tramgwyddus. Roedd gan y prosiect ddau gynghorwr gwirfoddol, gyda phob un yn gweld wyth menyw yr wythnos ar gyfer sesiynau unigol. Roedd swyddog prawf y Cwmni Adsefydlu Cymunedol a dau swyddog gwasanaeth prawf wedi'u lleoli yn y ganolfan, ynghyd â thri o weithwyr allweddol y prosiect. Roedd swyddog prawf y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol hefyd yn mynychu'r ganolfan bob wythnos. Roedd y tîm cyswllt iechyd meddwl cyfiawnder troseddol lleol yn darparu gwasanaeth sgrinio iechyd meddwl ac ymyriadau ar gyfer menywod a oedd yn mynychu'r prosiect. Roedd y ganolfan hefyd yn cynnal llys datrys problemau i fenywod, yn ystod y cyfnod cyn-dedfrydu.

**Esiampl o arfer nodedig: 'Miss Elainey's', Scarborough**

Roedd y Prosiect Cymunedol i Fenywod yn Scarborough yn rheoli menter gymdeithasol o'r enw Miss Elainey's, yn gweithredu fel siop bwtîc. Roedd hwn yn darparu awyrgylch dysgu â chefnogaeth ar gyfer menywod agored i niwed, gan eu galluogi i ddatblygu sgiliau a phrofiad yn y diwydiant manwerthu, ac adeiladu hyder a hunanhyder. Nod y prosiect oedd cynyddu cyflogadwyedd menywod agored i niwed a gwella'u hannibyniaeth ariannol. Roedd y menywod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o dasgau, ac ym mhob agwedd o'r busnes. Roedd Miss Elainey's yn annog integreiddiad menywod gyda sgiliau a phrofiadau bywyd amrywiol ac roedd yna ddiwylliant o fentora cyfoedion a chefnogaeth. Roedd yr enw a dyluniad y logo hefyd wedi cael eu dewis a'u dylunio gan y menywod a oedd yn cymryd rhan.

### Cryfderau

Fe welsom gryfderau ac esiamplau o arfer da yn y canolfannau menywod yr ymwelom â hwy. Roedd gan fenywod naill ai fynediad uniongyrchol at wasanaethau arbenigol, neu gyfle i gael eu

cyfeirio atynt. Roedd y rhain yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, cefnogaeth ar gyfer camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, cynghori ar ddyledion, budd-daliadau a chyngor ariannol arall, cefnogaeth i deuluoedd gan gynnwys rhianta, gwasanaethau cam-drin domestig, ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Roedd yr ymagwedd 'siop un stop' at gael mynediad at wasanaethau i fenywod yn gryfder allweddol. Roedd y defnydd o ymyriadau holistaidd, lle roedd y gwaith yn cael ei wneud gyda menywod yn cael ei deilwra a'i bersonoli i'w hanghenion, ac roedd argaeledd gwasanaethau ategol i gefnogi'r menywod a oedd yn mynychu'r canolfannau hefyd yn un o'r cryfderau allweddol. Roedd ymyriadau i helpu gyda hyder a hunanhyder, perthnasoedd, lles emosiynol a chamddefnyddio sylweddau yn cefnogi menywod ac yn adeiladu sylfeini da ar gyfer gwaith ar ymddygiad tramgwyddus.

Dywedodd un fenyw: *"Rwy'n mynd i'r ganolfan, mae'n wych, rwy'n gweld fy swyddog prawf yno hefyd. Rydw i wedi gwneud cyrsiau hunanhyder a phethau fel yna, mae wedi fy helpu cymaint. Rwy'n cael cymorth gyda thai yma hefyd ac maen nhw'n fy helpu i lenwi ffurflenni, maen nhw'n hynod gefnogol."*

Roedd rhaglenni yn arwain at gymwysterau addysgol neu seiliedig ar sgiliau ar gael mewn rhai o'r canolfannau menywod. Ymhlith yr esiamplau roedd rhifedd a llythrennedd City and Guilds, a chyrsiau cyflogadwyedd a datblygiad personol, wedi'u cynnal yng nghanolfan fenywod Scarborough ar y cyd â Choleg Efrog.

Roedd argaeledd cyfleusterau meithrinfa mewn rhai canolfannau yn amlwg yn gwneud ymrwymiad a phresenoldeb menywod gyda phlant ifanc llawer mwy ymarferol. Roedd cyfleoedd i gymryd rhan mewn grwpiau cefnogaeth i rieni a meithrin, ac i gael mynediad at ymwelwyr iechyd, yn amlwg yn cael eu croesawu gan y menywod. Un esiampl oedd y rhaglen feithrin deng wythnos yn y Prosiect Menywod Ynghyd yn Salford gyda'r nod o helpu i wella perthnasoedd a lles emosiynol o fewn teuluoedd.

Dywedodd un fenyw: *"Cefais fy nghyfeirio [at y ganolfan fenywod] sy'n ardderchog. Roeddwn i'n pryderu ar y cychwyn oherwydd roedd pawb yn gwybod pwy oeddwn i a beth roeddwn i wedi ei wneud, ond cefais fy nhrin yn normal a doedd neb yn fy meirniadu, roeddwn yn teimlo mor ddiogel a chyfforddus. Roeddwn yn gallu gwneud cyrsiau er mwyn i mi allu dod o hyd i waith a chael cymorth gyda fy CV. Mae meithrinfa yma hefyd felly roeddwn yn gallu gadael fy mhlentyn a chario ymlaen gyda'r pethau roedd angen i mi eu gwneud. Mae gwir deimlad o gymuned yn ein plith, rydym yn helpu ac yn cefnogi ein gilydd."* Roedd menywod hefyd yn cael eu cefnogi gan eraill a oedd wedi cael profiadau tebyg. Mewn nifer o achosion roedd menywod wedi hyfforddi fel mentoriaid cyfoedion wedi i'w gorchymyn llys ddod i ben, ac wedi aros ar sail wirfoddol i helpu eraill.

Mewn ardaloedd lle roedd menywod wedi troseddu yn cael eu cyfeirio yn rheolaidd at ganolfannau menywod, fe welsom fod anghenion amrywiaeth unigol yn fwy tebygol o gael eu cymryd i ystyriaeth o fewn asesiadau, cynllunio a chyflwyno ymyriadau. Roedd ymyriadau hefyd yn fwy tebygol o fod yn rhyw-benodol ac yn addas er mwyn mynd i'r afael ag anghenion unigol.

Fe welsom ymrwymiad cryf iawn gan staff a rheolwyr yn y canolfannau menywod; roedd staff yn wybodus ac yn fedrus yn eu gwaith gyda menywod, gan ddatblygu perthnasoedd gweithio agos a gofalgar gyda hwy. Fe welsom rai esiamplau o staff yn mynd 'y tu hwnt i'r galw' i gynorthwyo menywod a'u teuluoedd mewn rhai amgylchiadau cymhleth ac anodd.

### Pryderon

Roedd nifer o bryderon mewn perthynas â darpariaeth y canolfannau menywod nawr ac yn y dyfodol.

Fe welsom anghysondeb yn sut roedd menywod a oedd wedi troseddu yn gallu cael mynediad at gefnogaeth o ganolfan fenywod. Roedd hyn yn amrywio o ardaloedd lle doedd dim mynediad at ganolfannau menywod o gwbl, i ardaloedd lle roedd y ganolfan fenywod 'ar y stepen drws', gyda phob menyw a oedd wedi troseddu yn cael ei chyfeirio ati. Roedd agosatrwydd y ganolfan a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn ffactorau pwysig o ran menywod yn gallu cael mynediad at wasanaethau. Yn Llundain, er enghraifft, fe ddarganfuom, er bod canolfan fenywod yn gweithredu yn Hammersmith, nid oedd unrhyw rai o'r menywod a arolygwyd gennym yn Camden ac Islington yn ei defnyddio, gan fod yn well ganddynt beidio â theithio o fewn Llundain. Mae'n bosib fod rhai o'r gwahaniaethau hyn yn hanesyddol, yn deillio o rai ardaloedd yn derbyn ariannu penodol ar gyfer canolfannau menywod am nifer o flynyddoedd. Dywedodd un fenyw: *"Rydw i'n methu credu nad ydy'r math yma o ganolfannau yn bodoli bob man ar gyfer menywod, byddwn i ar goll heb fy un i."*

Fe ddarganfuom wahaniaethau strategol rhwng ardaloedd o ran sut roedd gwasanaethau i fenywod yn cael eu hystyried neu eu blaenoriaethu, ac roedd hyn hefyd yn effeithio ar argaeledd canolfannau menywod. Fe welsom esiamplau da o ffocws ar wasanaethau i fenywod mewn ardaloedd gydag uwch reolwyr gyda chyfrifoldeb penodol dros droseddu gan fenywod, cynlluniau gweithredu i fenywod, a phwyntiau cyswllt unigol o fewn timau, gan roi cyngor a chefnogaeth arbenigol i staff arall mewn perthynas â menywod a oedd wedi troseddu. Roedd darpariaeth ar gyfer menywod yn llai amlwg mewn ardaloedd lle roedd absenoldeb arweiniad penodol ar gyfer troseddu gan fenywod.

Roedd ariannu yn bryder mawr i ganolfannau menywod ar adeg ein harolygiad. Roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wrthi'n ystyried sut i ddyrannu eu cyllideb a'ublaenoriaethau a'u trefniadau comisiynu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

### Beth ddywedodd menywod am ganolfannau menywod

Roedd mwyafrif y menywod y cyfwelwyd â hwy gan User Voice yn cytuno bod canolfannau menywod yn chwarae rôl allweddol wrth leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu trwy ddatblygu perthynas gadarnhaol gyda menywod eraill, yn ogystal â darparu gwir synnwyr o gymuned.

O'r 28 menyw a gyfwelwyd, roedd 24 wedi cael eu cyfeirio at ganolfan fenywod am ymyrraeth neu gefnogaeth. Roedd y menywod i gyd yn canmol y canolfannau am eu cefnogi, yn ogystal â darparu awyrgylch ddiogel ar eu cyfer. Nododd nifer o'r menywod fod y ganolfan wedi cael dylanwad cadarnhaol arnyn nhw a'u bywydau oherwydd y mynediad a'r gefnogaeth roeddent yn eu cynnig wrth eu helpu i fyw bywyd heb droseddu a chynyddu eu hyder a hunanhyder. Roeddent hefyd yn croesawu'r cyfleoedd hyfforddiant ac addysg a ddarparwyd trwy'r canolfannau menywod, gyda'r nod o ddod o hyd i gyflogaeth addas iddynt yn y dyfodol.

*"Mae* [y ganolfan fenywod] *wedi achub fy mywyd, hebddynt dydw i ddim yn credu baswn i'n fyw heddiw, mae wedi bod yn brofiad mor gadarnhaol i mi, mae'r holl fenywod mor gefnogol o'i gilydd, rydym i gyd yma ar gyfer ein gilydd, rydym yn edrych allan am bawb. Mae'n lle mor wych. Roeddwn i'n gweld fy swyddog prawf yma felly roeddwn yn teimlo'n ddiogel, roeddwn yn gwneud fy ngwaith grŵp i gyd yma a oedd yn rhoi hyder i mi, rwy'n dioddef o anhwylder personoliaeth ffiniol felly roedd yn anodd iawn i mi gerdded trwy'r drysau, ond roedd y menywod yn help mawr. Rwy'n gwybod na fyddaf yn aildroseddu oherwydd dydw i ddim eisiau siomi'r menywod eraill, na fi fy hun, mae'n gymuned ffantastig".*

*Ydw, rydw i'n gweld fy swyddog prawf yn y ganolfan, mae'n gweithio'n dda ac rwy'n cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnaf nid yn unig o'r ganolfan ond gan y menywod eraill*

*hefyd, rydym yn cefnogi ein gilydd. Yr unig beth i mi yw ei fod yn eithaf pell i ffwrdd, basai'n well yn agosach."*

*"Jyst yr awyrgylch, dydw i erioed wedi bod i unrhyw beth fel hwn o'r blaen ...... mae'n ddiogel a sut maen nhw'n gallu ein helpu a sut maen nhw'n siarad â chi, mae'n lle gwych."*

*"Y peth gorau sydd wedi digwydd i mi oedd cael fy nghyfeirio at y ganolfan. Roeddwn yn nerfus yn mynychu am y tro cyntaf ond roedd pawb mor gymwynasgar, roeddwn yn teimlo wedi ymlacio ac yn ddiogel. Rydych chi'n gwneud ffrindiau newydd a dydych chi ddim yn cael eich beirniadu am eich trosedd ac mae pawb yn gwneud i chi deimlo fel rhan o gymuned."*

Roedd tair o'r menywod y cyfwelwyd â hwy wedi cael cynnig cyfeiriad at ganolfan fenywod, ond wedi gwrthod y cynnig; roedd hyn oherwydd lleoliad y ganolfan neu natur y gefnogaeth a oedd ar gael iddynt. Roedd un fenyw wedi trefnu ei hymyriadau ei hun heb gymorth ei swyddog cyfrifol, gyda'i chynnydd yn cael ei drafod yn ei hapwyntiadau misol.

Roedd y menywod y cyfwelwyd â hwy yn teimlo'n gryf y dylai canolfannau menywod fod ar gael yn fwy eang, i ganiatáu i fenywod gydymffurfio â'u dedfryd mewn awyrgylch lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel.

*"Rwy'n credu ei fod yn warthus bod neb wedi fy ngwneud yn ymwybodol o'r ganolfan hon, nid fi ddylai fod wedi bod yn gyfrifol am ddod o hyd iddi."*

## 8. Barn menywod sy'n troseddu

### Sylwadau agoriadol:

Yn ganolog i'r arolygiad thematig hwn mae profiadau menywod a arolygir gan wasanaethau prawf. Fe gwblhaodd User Voice 28 gyfweliad un i un gyda menywod yn Brighton, Bryste, Camden ac Islington, Salford, Scarborough a Wrecsam fel rhan o'r arolygiad hwn. Roedd y cyfweliadau yn rhannol strwythuredig yn eu natur.

### Canfyddiadau allweddol:

Roedd cydsyniad sylweddol ymhlith y menywod y cyfwelwyd â hwy fod gweld swyddog dyletswydd mewn apwyntiadau yn niweidiol i'w hysgogiad i gydymffurfio, oherwydd yr angen i ailadrodd gwybodaeth, a'r teimlad eu bod yn siarad â dieithryn. Dywedodd un fenyw: *"Roedd fy mhrofiad yn weddol negyddol oherwydd dydw i byth yn gweld fy swyddog prawf, mae hi bob tro i ffwrdd yn sâl felly mae'n rhaid i mi weld y swyddog dyletswydd. Dydw i ddim yn hoffi hyn oherwydd rydw i eisiau ei gweld hi, hi yw'r person rwy'n ymddiried ynddi nid swyddog dyletswydd sy'n newid o wythnos i wythnos."*

Roedd un deg naw o'r menywod y cyfwelwyd â hwy gan User Voice wedi cael eu cyfeirio at ganolfan fenywod, ac yna roeddent yn gallu cael mynediad at nifer o raglenni ac ymyriadau gyda'r nod o leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Roedd y menywod yn teimlo bod y rhaglenni hyn yn ddefnyddiol ac yn darparu'r gefnogaeth roedd ei angen arnynt, yn benodol, mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Roedd dros hanner y menywod y cyfwelwyd â hwy yn teimlo bod eu hanghenion wedi cael eu hystyried pan ddatblygwyd cynllun eu dedfryd. Fodd bynnag, dywedodd tair menyw nad oeddent yn teimlo bod eu hanghenion wedi cael eu hystyried, yn benodol, eu hanghenion penodol fel menywod.

Dywedodd pob un o'r menywod y cyfwelwyd â hwy bod eu swyddogion cyfrifol yn hyblyg ac yn gymwynasgar gyda'u hamgylchiadau, er mwyn sicrhau eu bod yn cwblhau'u gorchmynion, ac roedd hyn yn eu galluogi i oresgyn mwyafrif y rhwystrau at ymrwymo.

### Y profiad o gael eich goruchwylio gan wasanaethau prawf

Disgrifiodd tair o bob pedair o'r menywod y cyfwelwyd â hwy bod eu profiad cyffredinol gyda'r gwasanaethau prawf yn gadarnhaol. Dywedodd y mwyafrif fod cael perthynas dda gyda swyddog cyfrifol a oedd yn ddeallgar ac yn empathig tuag at eu hanghenion, yn ogystal â chael eu cyfeirio at ganolfan fenywod, wedi cyfrannu at wneud eu profiad yn un cadarnhaol.

*"Mae'r swyddog prawf wedi bod yn dda i mi oherwydd y cyswllt rwy'n ei gael ganddi hi. Mae hi'n fy ffonio i sicrhau fy mod yn iawn. Mae hi wedi bod i fy ngweld yn fy nghartref pan rydw i wedi bod yn sâl, wedi fy helpu i ddod o hyd i fy llety. Mae wedi bod yn dda iawn."*

*"Yn ogystal â pheidio ag aildroseddu, mae prawf wedi fy helpu i gael fy mhlant yn ôl a chael to uwch ein pennau. Mae'n dda cael trefn yn fy mywyd eto."*

*"Mae wedi bod mor gadarnhaol, wedi cael fy fflat, fy mhlant gyda mi, dod i ffwrdd o amddiffyn plant, mae'n wych ac mae gennyf gefnogaeth pawb yn y ganolfan fenywod."*

Roedd chwech o'r menywod, fodd bynnag, yn disgrifio cael eu goruchwylio gan wasanaethau prawf fel profiad negyddol, oherwydd eu bod yn teimlo fel eu bod yn cael eu beirniadu gan eu swyddog cyfrifol, neu oherwydd y diffyg cysylltiad gyda hwy.

*"Doedd dim byd cadarnhaol am brawf, roedd hi'n feirniadol iawn, y cwbl roedd hi'n gallu gweld oedd y drosedd, roedd hi'n methu gweld y tu ôl iddo. Roedd yn brofiad ofnadwy, roeddwn i jyst eisiau gorffen a chario ymlaen gyda fy mywyd."*

*"Roedd fy mhrofiad cyffredinol yn wael. Rwy'n credu bod angen i swyddogion prawf gael mwy o hyfforddiant, yn enwedig o ran iechyd meddwl. Mae angen iddynt ddangos mwy o dosturi a dealltwriaeth a bod wir eisiau helpu. Efallai dylid cael asesiad anghenion unigol, edrych ar y person a'r drosedd yn hytrach na'r drosedd yn unig."*

### Effaith *Gweddnewid Adsefydlu* ar fenywod

Dywedodd mwyafrif y menywod y cyfwelwyd â hwy nad oeddent wedi cael profiad o unrhyw newid yn lefel y gwasanaeth a dderbynion nhw gan eu swyddog cyfrifol ers cyflwyno *Gweddnewid Adsefydlu.*

Roedd dwy o'r menywod y cyfwelwyd â hwy yn teimlo bod eu profiad o wasanaethau prawf wedi newid er gwell, oherwydd roeddent nawr yn canolbwyntio mwy ar anghenion menywod ac roedd gwelliannau wedi bod o ran cyfathrebu.

*"Rwy'n credu ei fod wedi gwella, mae'n ymddangos fel eu bod yn gwneud llawer mwy i fenywod nawr, mwy o wasanaethau, mwy o gefnogaeth, dyna beth sydd angen arnom a swyddog prawf da sy'n gwrando ac yn cwrdd â ni hanner ffordd."*

Roedd dwy fenyw, fodd bynnag, yn teimlo bod lefel y gwasanaeth a dderbynion nhw wedi gwaethygu, yn arbennig o ran cyfathrebu.

*"Rydw i'n cael trafferth nawr yn ceisio cysylltu â fy swyddog prawf ac rwy'n credu bod hynny oherwydd eu bod yn rhy brysur nawr. Oherwydd yr holl newidiadau hyn, mae fy mhrawf wedi newid ddwywaith, roedd gennyf berthynas dda o'r blaen a nawr mae'n rhaid i mi gychwyn eto."*

*"Roeddwn yn gyrru ymlaen yn dda gyda fy swyddog prawf, wir yn dechrau ymddiried ynddi ac agor i fyny iddi ac yna bang rwy'n cael un newydd. Nawr rydw i yn ôl i'r cychwyn, cefais fy ngham-drin yn rhywiol pan roeddwn yn ifancach, felly mae'n cymryd sbel i mi ymddiried."*

# Atodiad A

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Safle Cymeradwy | Safle a gymeradwywyd o dan Adran 13 *Deddf Rheoli Troseddwyr 2007*, a reolir naill ai gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu fudiadau annibynnol |
| CRC | Cwmni Adsefydlu Cymunedol: Sefydlwyd 21 cwmni o'r fath ym mis Mehefin 2014 i reoli'r rhan fwyaf o droseddwyr sy'n arddangos risg isel neu ganolig o niwed difrifol |
| Amddiffyn Plant | Gwaith i sicrhau bod pob cam gweithredu rhesymol wedi cael ei gymryd i gadw'r risg o blentyn yn dod i niwed mor isel â phosib. |
| Arolygiaeth Prawf EM | Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi |
| Rheoli Integredig Troseddwyr | Ymagwedd amlasiantaeth yn cynnwys yr heddlu a'r gwasanaethau prawf at reoli troseddwyr a adnabyddir yn lleol fel blaenoriaeth |
| Ymyrraeth | Gwaith gydag unigolyn gyda'r nod o newid eu hymddygiad tramgwyddus a/neu gefnogi amddiffyn y cyhoedd |
| LDU | Uned Gyflwyno Leol: uned weithredu yn cynnwys swyddfa neu swyddfeydd, fel arfer yn gydamserol ag unedau gorchmynion sylfaenol yr heddlu a strwythurau awdurdodau lleol |
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd: lle mae'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n peri risg uwch o niwed i eraill |
| NPS | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: un gwasanaeth cenedlaethol a ddaeth i rym ym mis Mehefin 2014. Ei rôl yw cyflwyno gwasanaethau i'r llysoedd a'r bwrdd parôl; a rheoli grwpiau penodol o droseddwyr:<br>• y sawl sy'n dangos risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol<br>• y sawl a reolwyd o dan drefniadau MAPPA<br>• y sawl gyda sgôr RSR dros 6.89%<br>• y sawl sy'n gymwys am alltudiaeth<br>• y sawl sy'n destun dedfryd ohiriedig<br>• y sawl gyda 'buddiant cyhoeddus' yn yr achos. |
| NOMS | Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr: Yr asiantaeth sy'n gyfrifol am garchardai a'r gwasanaethau prawf |
| *Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014* | Daeth i rym ym mis Chwefror 2015, ac mae'n berthnasol i droseddau a gyflawnwyd ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, *Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014* yw'r Ddeddf Seneddol sy'n cyd-fynd â rhaglen *Gweddnewid Adsefydlu* |
| Yr Ymddiriedolaeth Prawf | Tan fis Mai 2014, roedd gwasanaethau prawf yn cael eu cyflwyno gan Ymddiriedolaethau Prawf, gan weithio dan nawdd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr |
| Swyddog cyfrifol | Yn iaith rheoli troseddwyr, dyma'r term ar gyfer y swyddog gyda'r prif gyfrifoldeb dros reoli achos penodol 'o'r dechrau i'r diwedd' |

| | |
|---|---|
| PSR | Adroddiad cyn-dedfrydu. Mae hwn yn cyfeirio at adroddiad a ddarperir ar gyfer llys, os yw'n cael ei gyflwyno ar lafar neu ar ffurf ysgrifenedig |
| RoSH | Risg o niwed difrifol: term a ddefnyddir mewn OASys. Mae pob achos yn cael ei dosbarthu fel un sy'n cyflwyno risg isel/canolig/uchel/uchel iawn o niwed difrifol i eraill. Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn defnyddio'r term hwn wrth gyfeirio at y system dosbarthu, ond mae'n defnyddio'r term ehangach risg o niwed wrth gyfeirio at ddadansoddiad sydd wedi digwydd er mwyn pennu lefel y dosbarthiad. Mae hyn yn helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng y tebygolrwydd o ddigwyddiad yn digwydd ac effaith/difrifoldeb y digwyddiad. Mae'r term Risg o Niwed Difrifol yn cynnwys effaith 'ddifrifol' yn unig, tra bod defnyddio 'risg o niwed' yn caniatáu rhoi'r sylw angenrheidiol i'r troseddwyr hynny i bwy mae ymddygiad niweidiol o effaith/difrifoldeb is yn debygol |
| Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu | Gofynion Gweithgarwch Adsefydlu: gofyniad o fewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig a gyflwynwyd gan *Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 2014*, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr fynychu apwyntiadau a/neu gymryd rhan mewn gweithgareddau at ddiben adsefydlu. Mae hwn yn disodli'r gofynion goruchwylio a gweithgarwch ar wahân o dan *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003* |
| Prosiect Menywod Ynghyd | Yn 2005, lansiwyd Prosiect Menywod Ynghyd, gydag ariannu wedi'i glustnodi yn benodol ar gyfer prosiectau cymunedol i leihau troseddu gan fenywod a mynd i'r afael ag anghenion menywod mewn perygl o droseddu |
| *Gweddnewid Adsefydlu* | Rhaglen y llywodraeth ar gyfer sut caiff troseddwyr eu rheoli yng Nghymru a Lloegr o fis Mehefin 2014 |

# Atodiad B

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr arolygiad hwn: staff a rheolwyr y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r canolfannau menywod; ynadon, Barnwyr Rhanbarth, ac yn arbennig y menywod a oedd wedi bod yn rhan o'r system droseddol ac a ddywedodd wrthym am eu profiadau.

Rydym yn ddiolchgar i'r unigolion a'r mudiadau a restrir isod a gyfrannodd at yr arolygiad yn y dulliau canlynol:

- cyfweliadau gyda chysylltiadau allweddol
- cyfarfod grŵp cyfeirio a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2015
- trafodaeth o amgylch bwrdd gyda'r sector gwirfoddol ar 28 Hydref 2015
- ymatebion i'n galwad am dystiolaeth
- ymatebion i'n harolwg.

**Cyfweliadau gyda chysylltiadau allweddol:**

- Y Gwir Anrhydeddus, y Farwnes Jean Corston; Tŷ'r Arglwyddi
- Frances Crook OBE; Prif Weithredwr, The Howard League for Penal Reform
- Eila Davies; Pennaeth Menywod a Chydraddoldeb, Grŵp Cydraddoldeb, Hawliau a Gwedduster, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
- Jenny Earle; Cyfarwyddwr Rhaglen, Lleihau Carchariad Menywod, Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
- Keith McInnis; Arolygydd Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
- Jackie Russell; Cyfarwyddwr, Women's Breakout
- Sean Sullivan; Arweinydd y Tîm Arolygu, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
- Sue Taylor; Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Adsefydlu, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr

**Mynychwyr y Grŵp Cyfeirio:**

- Eleanor Butt; Cynghorydd Polisi, The Howard League for Penal Reform
- Becky Clarke; Uwch Ddarlithydd, Yr Adran Gymdeithaseg, Prifysgol Fetropolitan Manceinion
- Jan Doyle; Soroptimydd Ryngwladol Prydain Fawr ac Iwerddon
- Jenny Earle; Cyfarwyddwr Rhaglen, Lleihau Carchariad Menywod, Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
- Dr Thomas Guiney; Uwch Swyddog Rhaglenni, Lleihau Carchariad Menywod, Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
- Yr Athro Loraine Gelsthorpe; Athro mewn Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol, Cyfarwyddwr y Ganolfan dros y Gymuned, Rhyw a Chyfiawnder Troseddol, Prifysgol Caergrawnt

- Jennifer Henry; Arolygydd Cynorthwyol ei Mawrhydi, Arolygiaeth Erlyn y Goron ei Mawrhydi
- Robyn Malan de Merindol, Uwch Gefnogaeth Polisi, y Tîm Menywod, Grŵp Cydraddoldeb, Hawliau a Gwedduster, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
- Keith McInnis; Arolygydd Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

### Cyfranogwyr y trafodaeth o amgylch bwrdd

- Jenny Earle; Cyfarwyddwr Rhaglen, Lleihau Carchariad Menywod, Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (Cadeirydd)
- Sophie Gibson, Canolfan Fenywod Brighton
- Dr Thomas Guiney; Uwch Swyddog Rhaglenni, Lleihau Carchariad Menywod, Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
- Jan Fishwick; Prif Weithredwr, Parents and Children Together (PACT)
- Michele Nicholson; sylfaenydd, Key Changes – Unlocking Women’s Potential
- Dr Kate Paradine; Prif Weithredwr, Women in Prison
- Jackie Russell; Cyfarwyddwr, Women’s Breakout
- Katharine Sack-Jones; Cyfarwyddwr, Agenda – y gynghrair ar gyfer menywod a merched mewn perygl
- Esther Sample; Cydlynydd Strategaeth Menywod, St Mungo’s
- Melanie Sheehan; Rheolwr Rhaglen, Advance Minerva

### Ymatebwyr i'r galwad am dystiolaeth

- Action for Children
- ADVANCE Minerva
- Canolfan Fenywod Asha
- Canolfan Fenywod Brighton
- Clinks
- Coaching Inside and out
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Swydd Derby
- Fry Housing Trust
- Gibran (UK) Ltd
- Hibiscus Initiatives
- Howard League for Penal Reform
- Magistrate's Association
- NACRO
- Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
- Safe Choices
- Safe Ground
- Soroptimyddion Rhyngwladol
- Tomorrow's Women Wirral
- Women in Prison
- Women Centre Services (Calderdale a Kirklees)
- Women's Breakout

## Ymatebwyr i'r arolwg

Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys amrywiaeth o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac uwch reolwyr ac ymarferwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, yn ymateb fel:

- Uned Gyflwyno Leol Barking, Dagenham a Havering, Llundain
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Swydd Bedford, Swydd Northampton, Swydd Gaergrawnt a Swydd Hertford
- Uned Gyflwyno Leol Bradford a Calderdale
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Bryste, Caerloyw, Gwlad yr Haf a Wiltshire
- Swyddfa Cannock yn Swydd Stafford y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Swydd Gaer a Manceinion Fwyaf
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cumbria
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Swydd Derby, Swydd Gaerlŷr, Nottinghamshire a Rutland
- Gwasanaeth Prawf Durham
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Dwyrain a Gorllewin Swydd Lincoln
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Hampshire ac Ynys Wyth
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Glannau Humber, Swydd Lincoln a Gogledd Swydd Efrog
- Uned Gyflwyno Leol Hull
- Prosiect Braenaru i Fenywod Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Caint, Surrey a Sussex
- Gwasanaeth Prawf Llundain
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Glannau Mersi - yn cynnwys Sefton, Wirral, Lerpwl, St Helens a Knowsley
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Norfolk a Suffolk
- Gogledd a Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln - Glannau Humber
- Uned Gyflwyno Leol Gogledd a Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Gogledd Swydd Efrog
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Northumbria
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Telford
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Gogledd Ddwyrain Lloegr
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Redcar a South Bank
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol De Swydd Efrog
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Swydd Stafford a Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Swyddfa Brawf Telford
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Swydd Warwick a Gorllewin Mercia
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Gorllewin Swydd Efrog
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Efrog a Gogledd Swydd Efrog

## Y Tîm Arolygu

| | |
|---|---|
| **Prif Arolygydd** | Sue McGrath, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| **Y Tîm Arolygu** | Helen Davies, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Krystyna Findley, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Joy Neary, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Les Smith, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| **Gwasanaethau Cefnogaeth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi** | Kevin Ball, *Uwch Swyddog Ymchwil*<br>Pippa Bennett, *Rheolwr Gwasanaethau Cefnogaeth*<br>Oliver Kenton, *Swyddog Ymchwil*<br>Lynne Osborn, *Swyddog Gwasanaethau Cefnogaeth*<br>Alex Pentecost, *Rheolwr Cyfathrebu* |
| **Prif Arolygydd Cynorthwyol** | Helen Davies, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Alan MacDonald, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |

## Atodiad C Methodoleg yr arolygiad

Prif gydrannau'r arolygiad thematig hwn oedd:

### Rhan un: paratoi ar gyfer gwaith maes

- Adolygiad o bapurau ymchwil/dadansoddol, dogfennau polisi a dogfennau cyfarwyddyd am fenywod sy'n troseddu yng Nghymru a Lloegr.
- Anfonwyd galwad am dystiolaeth allan at amrediad o bartïon â diddordeb ym mis Awst 2015, a'i bostio ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'i chyfrif Twitter.
- Anfonwyd arolwg at bob Cwmni Adsefydlu Cymunedol ac ardaloedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr gan gael 31 ymateb, 15 gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac 16 gan staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.
- Ymweliadau anffurfiol â phum ardal i weld a thrafod gwaith ac arferion gyda menywod, fel a ganlyn:
    - Cwmni Adsefydlu Cymunedol Swydd Gaer a Manceinion Fwyaf - ymweliad â Chanolfan Fenywod Wigan
    - Cwmni Adsefydlu Cymunedol Swydd Derby, Swydd Gaerlŷr, Swydd Nottingham a Rutland - ymweliad â Chanolfan Fenywod Nottingham
    - Cwmni Adsefydlu Cymunedol Hampshire ac Ynys Wyth - trafodaethau gyda staff a rheolwyr ym Mhencadlys y Cwmni Adsefydlu Cymunedol, Caer-wynt
    - Cwmni Adsefydlu Cymunedol Swydd Warwick a Gorllewin Mercia - ymweliad â Fferm Willowdene, Swydd Amwythig; Canolfan Fenywod, Caerwrangon; a Youth Support Services Ltd, Caerwrangon
    - Cwmni Adsefydlu Cymunedol Gorllewin Swydd Efrog - ymweliad â Chanolfan Well Women Wakefield
- Ym mis Hydref 2015, cynhaliwyd cyfarfod grŵp cyfeirio, yn cynnwys cynrychiolwyr o fudiadau a chyrff a oedd yn rhan o weithio gyda menywod sy'n troseddu, ac academyddion. Roedd y cyfarfod yn ystyried cynnydd yr arolygiad a'i ganfyddiadau cynnar o'r gwaith paratoi. Trefnwyd trafodaeth o amgylch bwrdd gyda chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol hefyd: Yn ystod yr un cyfnod, cynhaliodd arolygyddion nifer o gyfweliadau dros y ffôn gyda chysylltiadau allweddol yn gysylltiedig â throseddu gan fenywod.

### Rhan dau: Gwaith maes yr arolygiad (Tachwedd 2015 - Ionawr 2016)

- Hysbyswyd y gwaith maes gan y gwaith paratoi uchod, ac roedd hefyd yn cynnwys ymweliadau â chwe Chwmni Adsefydlu Cymunedol a safle'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a oedd yn cynnwys cymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig fel a ganlyn:
- Brighton
- Bryste
- Camden ac Islington
- Gogledd Cymru
- Gogledd Swydd Efrog
- Salford

Roedd y gwaith maes yn cynnwys:

- cyfweliadau â 14 uwch reolwr y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac 8 uwch reolwr o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- grwpiau ffocws a oedd yn cynnwys 20 o staff o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol a 27 o staff o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol; roedd y grwpiau ffocws yn cynnwys swyddogion prawf, swyddogion gwasanaeth prawf, swyddogion prawf dan hyfforddiant, gweinyddwyr a staff y bartneriaeth
- adolygiadau o 72 achos; yn ogystal ag asesiadau o ffeiliau'r achosion, roedd yr adolygiadau'n cynnwys cyfweliadau gyda'r swyddogion cyfrifol mewn 56 achos, a chyfweliad gyda rheolwr mewn un achos. Mewn 15 achos, doedd neb ar gael am gyfweliad
- trafodaethau gyda dedfrydwyr a staff y llysoedd, gan gynnwys dau Farnwr Rhanbarth, deg ynad, dau reolwr tîm cyfreithiol a chwech aelod o staff prawf y llysoedd. Roedd y niferoedd yn amrywio fesul ardal yn dibynnu ar argaeledd
- chwe ymweliad safle a thrafodaethau gyda gwasanaethau menywod, gan gynnwys canolfannau menywod
- cyfweliadau â menywod a oedd yn cael eu goruchwylio gan wasanaethau prawf.

Fe gomisiynom User Voice, elusen dan arweiniad cyn-droseddwyr, i gynnal y cyfweliadau â'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n fenywod (gyda'u caniatâd gwybodus) ar ein rhan. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda 28 menyw (gweler Atodiad C am ragor o wybodaeth am User Voice)

### Gwaith maes yr arolygiad - proffil achosion

Fe arolygom 72 achos o chwe ardal yng Nghymru a Lloegr, o fenywod a oedd wedi cael dedfryd o orchymyn cymunedol, gorchymyn cymunedol ohiriedig neu eu rhyddhau ar drwydded rhwng Mawrth a Medi 2015. Nid oedd hon yn sampl gynrychioliadol yn ystadegol; bwriad ein harolygiad o achosion yw cynhyrchu canfyddiadau enghreifftiol. O'r menywod hyn:

- roedd 61 (86%) yn wyn
- roedd y fenyw ifancaf yn y sampl o achosion yn 19 mlwydd oed, gyda'r hynaf yn 52 mlwydd oed; yr oedran ar gyfartaledd oedd 32 mlwydd oed gyda'r rhan fwyaf (57%) rhwng 25-39 mlwydd oed
- doedd dim crefydd gan 51 (71%); roedd 16 (22%) yn Gristnogion; ac roedd 2 (3%) yn Fwslim
- roedd 44 yn heterorywiol; 4 yn lesbiad; mewn 18 achos, nid oedd cofnod o gyfeiriadedd rhywiol ar ffeil yr achos; ac roedd yn well gan 6 beidio â dweud
- roedd 15 (22%) wedi cael eu cofnodi gan y swyddog cyfrifol fel rhai oedd ag anabledd; 10 fel rhai a oedd â phroblemau gyda chyflwr emosiynol neu iechyd meddwl
- roedd 28 (39%) yn gwneud gorchymyn cymunedol; 15 (21%) yn gwneud gorchymyn dedfryd ohiriedig; ac roedd 29 (40%) ar drwydded
- roedd 47 (65%) yn cael eu rheoli gan Gwmni Adsefydlu Cymunedol ac roedd 25 (35%) yn cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- yn fwyaf cyffredin, roedd y menywod wedi cyflawni trosedd dreisgar neu ddwyn

- rydym wedi cynnwys achosion o risg uwch yn fwriadol o'r rhestrau hir a anfonwyd atom gan yr asiantaethau perthnasol, er mwyn gweld gwaith achos mwy cymhleth; roedd 8 wedi cael eu dosbarthu fel rhan gyda risg uchel o niwed difrifol i eraill; 44 gyda risg canolig; ac 20 gyda risg isel
- roedd 13 achos yn cael eu rheoli o dan drefniadau MAPPA.

# Atodiad D

### Rôl User Voice

Elusen dan arweiniad cyn-droseddwyr User Voice a sefydlwyd yn 2009. Hyd yn hyn, maen nhw wedi ymrwymo dros 20,000 o bobl, ac maen nhw'n arbenigwyr ar gael mewnwelediad a barn y bobl fwyaf ymylol a bregus yn ac o amgylch y system cyfiawnder troseddol. Mae User Voice mewn sefyllfa unigryw i allu gwneud hyn oherwydd bod eu gwaith ar y rheng flaen yn cael ei gyflwyno gan cyn-droseddwyr.

Mae User Voice yn deall bod troseddwyr eisiau siarad â phobl sydd wedi 'cerdded yn eu hesgidiau' a chael profiad o ddigwyddiadau tebyg yn eu bywydau.

Dim ond pan fo menyw yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddigon diogel i rannu'i phrofiadau y byddant yn cyfweld â hi. Mae'r cyfweliadau bob tro'n weddol strwythuredig er mwyn caniatáu am dôn sgyrsiol. Mae'r cyfweliadau hefyd wedi'u cynllunio yn y fath fodd i fod yn gynhyrchiol ac yn gadarnhaol. Un o'u hegwyddorion craidd yw y dylai cael eich cyfweliad beidio ag arwain at ragor o drawma, ond yn hytrach darparu cyfle i egluro i berson arall, sy'n deall, eich profiadau a'ch safbwynt.

Yn ystod yr arolygiad, roedd User Voice yn siarad gyda defnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi dewis cymryd rhan yn unig, ac roeddent yn cael eu cefnogi i ddatgelu beth roeddent yn ei datgelu, a sut. Mae cydsyniad gwybodus yn hanfodol, ac o'r herwydd rydym yn ymdrechu i esbonio i bawb rydym yn gweithio gyda nhw beth yw diben a'r rhesymeg dros ein gwaith. Rydym yn esbonio wrth gyfranogwyr eu bod yn gallu tynnu yn ôl o'r ymgynghoriad ar unrhyw adeg, heb reswm neu atebolrwydd.

Roedd ddefnyddwyr gwasanaeth yn gwirfoddoli i gymryd rhan ac roedd pob cyfwelydd yn gyn-droseddwr wedi'i hyfforddi mewn ymchwil a hwyluso grŵp.

Roeddem yn sicrhau'r sawl a oedd yn dewis cymryd rhan na fyddent yn cael eu hadnabod yn bersonol yn yr adroddiad.

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:**

User Voice

20 Newburn Street

Llundain SE11 5PJ

Ffôn: 020 3137 7471

E-bost: info@uservoice.org

Gwefan: www.uservoice.org

Gallwch ddarllen eu cyhoeddiadau yma:

http://www.uservoice.org/our-work/library/publications/

# Atodiad E

## Rôl a chod ymarfer yr arolygiaeth

Gellir dod o hyd i wybodaeth am rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer ar ein gwefan:

http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-hmi-probation/

Corff cyhoeddus yw'r arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno sylw ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gorchwyl ysgrifennu at:

Prif Arolygydd Prawf ei Mawrhydi

1st Floor, Manchester Civil Justice Centre

1 Bridge Street West

Manceinion M3 3FX